ECO'R WYDDFA

Rhif 266 EBRILL 2000 Pris 40c

Yn y rhifyn hwn

- ⋆ Atgofion am hen Ysgol Brynrefail
- ⋆ Llythyr o'r America
- ⋆ Hanes hen siopau ardal Llanrug
- ⋆ Siambr Selwyn
- ⋆ a newyddion holl bentrefi'r ardal

BAW, BAW a MWY o FAW

Mae Cyngor Cymuned Llanberis yn bryderus bod baw cŵn yn achosi llanast a pherygl yn y pentref.

Trafodwyd y mater yng nghyfarfod mis Mawrth y Cyngor. Clywyd bod y broblem wedi gwaethygu er gwaetha'r ffaith y gall pobl gael eu dirwyo hyd at fil o bunnoedd am adael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Ceir baw ar lawer o strydoedd y pentref, ac mae'n amlwg nad yw rhai perchnogion, yn poeni dim am glirio a glanhau baw eu cŵn.

Ond yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw'r ffaith bod caeau chwarae'r pentref yn cael eu defnyddio fel toiledau cŵn. Mae yna faw cŵn byth a hefyd yn y caeau chwarae yn Nôl Elidir ac ar lan y Llyn. O gofio bod baw cŵn yn gallu achosi niwed difrifol i iechyd plant, mae hyn yn gwbl annerbyniol.

Mae'r Cyngor eisiau gweld Warden Cŵn Cyngor Gwynedd yn y pentref yn fwy aml, nid yn unig i gynghori perchnogion cŵn, ond hefyd i ddal unrhyw rai sy'n fwriadol yn gadael i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus.

Y mae llawer o berchnogion cyfrifol sy'n sicrhau nad yw eu cŵn yn baeddu strydoedd a pheryglu iechyd plant. Byddant hwy mor awyddus â neb i weld y rhai euog yn cael eu cosbi. Mae'n hen bryd gwneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa annerbyniol. Mae'r Cyngor yn annog unrhyw un sy'n fwriadol yn gadael i'w gi faeddu mewn mannau cyhoeddus roi gwybod i'r Warden Cŵn. Fe allai gwneud hynny arbed plentyn rhag niwed difrifol.

Colli'r Hen Ysgol

Yr olygfa wrth i hen Ysgol Brynrefail gael ei dymchwel.

Yn ystod y bythefnos diwethaf fe gafodd yr hen ysgol ym Mrynrefail ei dymchwel i'r llawr. Hon wrth gwrs oedd yr Ysgol Brynrefail gyntaf ac mae'n gyddigwyddiad rhyfedd, ac anffodus iawn medd rhai, fod oes yr hen adeilad wedi dod i ben yn yr union flwyddyn y mae'r ysgol yn dathlu ei chanmlwyddiant.

Bydd gan lawer o drigolion y fro, a darllenwyr yr Eco ym mhell ac agos, atgofion melys iawn o'u cyfnod yn yr hen ysgol, ac fe fydd teimladau chwithig iawn mae'n siŵr wrth iddynt feddwl am yr hen ddyddiau hynny. Yn ôl pob son bu nifer yn ymweld a'r safle, rhai i gael golwg olaf ar yr adeilad cyn iddo ddiflanu, ac eraill ar ôl y dymchwel. Ond er colli hen adeilad bydd digon o gyfle yn ystod y flwyddyn hon, blwyddyn y canmlwyddiant, i edrych yn ôl a dathlu llwyddianau'r ysgol. Mae'r pwyllgor canmlwyddiant wedi ei sefydlu ac mae adroddiad ar dudalen 7 o'r gweithgareddau sydd wedi eu trefnu, ac mae llun arall o safle'r hen ysgol ar dudalen 12.

Fflio i Fflorida

Am yr ail flwyddyn yn olynol cafodd rhai o blant Ysgol Llanrug, gyda chymorth y Daily Post, wyliau bythgofiadwy yn Florida. Bu yn ymweliad bythgofiadwy i bawb a fu yno ac fe fydd yr hanesion yn dal i gael eu hadrodd am flynyddoedd i ddod mae'n siwr. Fe geir yr hanes yn llawn, a llawer mwy o luniau ar dudalen Ysgol Brynrefail yng nghanol yr Eco.

Rhai o'r plant a fu yn Florida yn ddiweddar.

ECO'R WYDDFA

Rhif 266
EBRILL 2000

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
MAI	EBRILL 17	EBRILL 27	DEINIOLEN	Mr W O Roberts
MEHEFIN	MAI 22	MEHEFIN 1	BRYNREFAIL	Dilys Wyn Morris
GORFFENNAF	MEHEFIN 19	MEHEFIN 29	BETHEL	Mr Geraint Elis
AWST	-	-	-	-
MEDI	AWST 28	MEDI 7	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 18	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 16	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 20	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872497)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 17
Dounydd i law'r golygyddion erbyn nos
NOS LUN, EBRILL 27
Os gwelwch yn dda

Llythyrau

Allt Riwth
Llanrug

Annwyl Olygydd,
Yr oeddwn gyda'r bwriad o anfon neges amleiriog at fy hen gyfaill cneifio, Dafydd Morris, Cefn Coch, Llanbabo yn ei annog i ddyfalbarhau yn ei frwydr â'r Fisigothiaid Newydd, sydd wedi gweld fawr o'r byd o'r tu allan i ddarnau o awyr rhwng sinemâu, cwt Bingo a phyllau yn y stryd, â'r rhai sydd wedi achosi dirywiad syfrdanol yn ansawdd y mynydd-dir.

Arbedwyd i mi'r llafur fodd bynnag gan John V. Morris yn ei gerdd gyfredol: 'Llwybrau'. Mae fy nghenadwri i a llawer un arall ynddi yn gryno.
Llongyfarchiadau
Yn ffyddlon
John E. Williams

Crud yr Awel
6 Llainfain
Caergybi

Cymdeithas Brodwaith Cymru
Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru (ardal Môn ac Arfon) yn cynnal cwrs undydd ar Gwiltio Cymreig dan arweiniad Beryl Jean Jones, yn Pili Palas Porthaethwy, Ynys Môn ar 15 Ebrill 2000. £10 yw cost y cwrs a mae croeso i aelodau hen a newydd. Manylion gan Gladys Pritchard ar (01407) 762090.
Yn gywir
Gladys Pritchard

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



Beic 'di malu ac isio'i drwsio?
Mae Yncl Wil yn siŵr o blesio.
Am feiciau glân ail-law a phartiau,
Wel, yma cewch chi'r fargen orau.

Cysylltwch â W. Jones
Waunfawr (01286) 650723

R.D. Thomson
Crefftwaith Coed

Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674100 (dydd)
(01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

AILGYLCHU
LLANRUG
RECYCLING

AILGYLCHU

Mae safle Ailgylchu Cymunedol Llanrug wedi symud i faes parcio tafarn Penbont
papur • caniau • gwydr

Llanrug Community Recycling Site has moved to Penbont public house car park
paper • cans • glass

ANTUR WAUNFAWR
Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd
☎ 01248 355 112
www.anturwaunfawr.org
mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd

Ocsiwn Addewidion

Cynhelir yr Ocsiwn yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar Ebrill 5 am 7 o'r gloch yr hwyr.

Y bwriad yw codi arian at Gronfa Neuadd yr Ysgol a bydd Mr Alwyn Siôn, o fyd y cyfryngau, yn ein cefnogi drwy arwain y noson.

Bydd croeso cynnes i bawb ac apêl am gefnogaeth yr ardal yn y noson gyffrous yma.

Os hoffech addo rhywbeth at y noson cysylltwch â'r ysgol, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

Yn barod mae addewidion arbennig iawn wedi dod i'n rhan: Noson o Gerddoriaeth Gwerin gan y band 'Deryn Prin'; MOT - Modurdy Hafod, Llanrug; Tri Llyfr gan Emyr Humphreys wedi eu harwyddo gan yr awdur; 3 pêl wedi eu harwyddo gan dîmau Lerpwl, Everton a Wrecsam; Basged o flodau gan Racca; Diwrnod ar set 'Rownd a Rownd'; 'Director's Chair' - Dafydd Du; Twb o flodau ar gyfer y patio; 'Exercise Bike' mewn cyflwr ardderchog; Pryd parod i 4 (Eirlys Williams), i enwi ond ychydig.

Bydd rhestr gyflawn ar gael erbyn y noson. Dewch i gefnogi ac ymuno yn yr hwyl.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Gwrthododd y Cyngor gais gan Ymgeisydd Seneddol Plaid Cymru am gael dod i un o gyfarfodydd y Cyngor. Teimlad y Cyngor oedd y byddai hyn yn anheg ag ymgeiswyr pleidiau eraill, ac y byddai'r Cyngor ar dir peryglus o ganiatau'r cais. Mae'n arferiad gan y Cyngor i estyn gwahoddiad i'r Aelod Seneddol, ond mater arall oedd estyn gwahoddiad i 'Ymgeisydd'.

Cytunwyd i anfon gair i ddiolch i Mr Eifion Jones, Swyddog Adfywio Bro Dyffryn Peris am ei gyd-weithrediad parod dros y blynyddoedd y bu yn dal y swydd. Diolchwyd hefyd i aelodau o Gyngor Cymuned Llanberis am eu cefnogaeth ynglŷn â'r Arddangosfa a gynhaliwyd yn yr Oriel, Llanberis yn ddiweddar pryd y bu i drigolion Deiniolen gael eu difrïo gan gerddi anweddus a ymddangosodd yn yr Oriel.

Yn dilyn llythyr a dderbyniwyd gan Dafydd Guto, Bethel cytunwyd i bwyso ar i Gyngor Gwynedd osod arwyddion ILDIWCH / GIVE WAY ar y ffyrdd, ac i'r aelodau anfon manylion o'r mannau lle mae angen arwyddion o'r math.

Cytunwyd i gyfrannu tuag at i blant ysgolion cynradd y plwyf gael ymweld ag Ynys Enlli yn ystod tymor yr haf. Roedd 70 o blant o ysgolion Rhiwlas, Bethel, Penisarwaun a Deiniolen i fanteisio ar hyn. Cytunwyd i gyfrannu £3 y plentyn.

Bu'r Cyngor yn ystyried cynlluniau o feinciau a dderbyniwyd, gan gynnwys rhai gan ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Bydd y Cyngor yn trafod ymhellach gyda Menter Fachwen pa gynllun i'w dderbyn. Bwriad y Cyngor yw gosod mainc ym mhob pentre drwy'r plwyf i ddathlu'r mil-flwydd.

Cytunwyd i anfon i'r Cynulliad i ofyn iddynt sicrhau na fydd gorsafoedd post gwledig yn cau, gan y byddai hyn yn achosi anhwylustod mawr i bensiynwyr.

Bu trafodaeth ar rybudd o gynigiad a dderbyniwyd sef 'y dylai'r Cyngor ystyried sefydlu Is-bwyllgorau'. Roedd hi'n amlwg o'r drafodaeth nad oedd y mwyafrif llethol o'r aelodau yn gweld fod pwrpas i hyn o gwbl, ac fe wrthodwyd y cynnig.

Croeso i Blas y Waun

Newyddion mawr yr Antur y mis yma yw fod ein caffi newydd 'Blas y Waun' yn agored.

Mae Blas y Waun yn cynnig bwydlen gyffrous, sy'n cyfuno bwydydd ffres lleol gyda rysetiau traddodiadol Cymreig. Lle i'r gymuned alw am ginio neu baned a sgwrs. Mae teisennau arbennig o dda yn cael eu coginio ar y safle yn ddyddiol, yn ogystal â chawl a bara cartref hyfryd. Hefyd mae pryd arbennig 'special' ar gael bob amser cinio.

Bu criw Merched y Wawr Waunfawr ymysg ein cwsmeriaid cyntaf, ac fel y gwelwch o'r llun roedd pawb wedi mwynhau gwledd o ddanteithion wedi eu paratoi gan griw y caffi. Estynnir croeso i grwpiau yn Blas y Waun yn ogystal â theuluoedd. Gallwn drefnu ymweliad gyfan, gyda thaith yn y Parc, efallai sgwrs yn y feithrinfa blanhigion neu'r adran grefftau, gyda brybryd neu hyd yn oed bryd 3 chwrs. Gallwn hefyd drefnu bwydlen arbennig i chi os ydych yn trefnu parti teulu neu ben-blwydd.

Mae Carol wedi ymuno â thîm yr Antur fel rheolwraig Blas y Waun, ac yn mwynhau y sialens o greu y fwydlen arbennig. Yn ei chynorthwyo ar hyn o bryd mae criw y siop ond byddai Carol yn falch iawn os oes rhywun eisiau cynorthwyo fel gwirfoddolwr o bryd i'w gilydd.

Ar Fai 1, dydd Gŵyl Banc, byddwn yn cynnal ein Gŵyl Fai flynyddol. Eleni mae Jonathan Jones, Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru wedi cytuno i ymuno â ni ar y diwrnod i agor Blas y Waun yn swyddogol. Mae Jac y Jwc wedi dweud ei fod am alw i gael dipyn o hwyl a the parti hefo'r plant, a hwyrach y bydd wedi perswadio Sali Mali i ddod am dro hefyd.

Fel arfer, bydd nifer o stondinau amglcheddol ac arddangosfeydd yn dod, ac eleni rydym yn gwahodd nifer mwy o grefftwyr i arddangos a gwerthu eu nwyddau yn yr Ŵyl.

Os cawn ddiwrnod mor llawn hwyl a thywydd mor braf â llynedd bydd yn siŵr o fod yn ddiwrnod arbennig, a siawns i'r gymuned ddod at ei gilydd a mwynheu ei hunan.

Cofiwch roi y digwyddiad yn eich dyddiadur heddiw. Dydd Llun, Mai 1, o 2 - 5 y pnawn.

Cymanfa'r Annibynwyr, Dosbarth Cwm-y-glo

Cynhelir un cyfarfod eleni yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, bnawn Sul, Ebrill 16 am 2 o'r gloch. Trefnwyd y rhaglen i gynnwys emynau ar gyfer y plant a'r oedolion a gobeithir cael cefnogaeth deilwng. Bydd y bws yn cychwyn o 'Ddeiniolen am 1.15pm gan alw ym Mhenisarwaun am 1.25pm, Cwm-y-glo am 1.30pm a chyrraedd Llanberis am 1.35pm.

Hyderwn y bydd yn Gymanfa fendithiol i bawb.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanacth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa
o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

O SIAMBAR SELWYN

'Groblar'

Pwyso ar wal Ysgol Bethel roeddwn i ar brynhawn braf, ychydig o flynyddoedd yn ôl bellach. Roedd 'na gêm bêl-droed bwysig yn mynd ymlaen. Roedd Ian Rush a Ryan Giggs yno a Cantona a John Barnes. Oedd, roedd sêr cyfoes y byd pêl-droed i gyd ar iard Ysgol Bethel. Daeth i'm cof gemau cyffelyb o'r gorffennol pell, ac ar fideo'r cof mi welwn innau Stanley Matthews a Frank Swift yn dangos eu doniau ar iard Ysgol Bethel.

Holais y golwr, a oedd yn gwarchod wal y gôl agosaf, gan ofyn ei enw? 'Neville,' atebodd y bychan. 'O, chdi 'di Neville Southall felly - golwr Cymru?' 'No way,' meddai'n wawdlyd, 'chwarae i Everton ma' hwnnw.' 'O, pwy wyt ti felly?' gofynnais. Atebodd y bychan gyda llond ceg o falchder - 'Bruce Groblar'.

Gwnaeth y golwr bach sawl arbediad gwych a rhoddais innau air o glod iddo a gofyn, 'Ydi'r Bruce Groblar 'ma cystal â chdi?' 'Ydi', meddai 'mae o'n grêt o goli,' gan ychwanegu 'mae o'n wahanol i bawb arall'. Oedd roedd golwr tîm Lerpwl ar iard Ysgol Bethel yn llygad 'i le - roedd Bruce Grobbelaar yn gymeriad arbennig, ac mi roedd o'n wahanol i bob golwr arall.

Bruce David Grobbelaar, un o'r cymeriadau mwyaf lliwgar a safodd rhwng pyst gôl erioed. Fe'i ganed yn Durban, De Affrig ar Hydref 6, 1957, a ffaith ddiddorol ydi fod ei dad a'i fam o yn gôl-geidwaid o safon hefyd. Bu ei dad, Hendrick, yn cadw gôl i Rhodesia ar un achlysur a'i fam, Beryl, yn cadw gôl i dîm hoci lleol. Gellir dweud felly i Bruce gael ei ddwyn i fyny rhwng pyst gôl megis, gan fod ei dad hefyd wedi gosod pyst gôl yn yr ardd ac roedd Bruce yn taflu ei hun o gwmpas i ddal pêl pan oedd o ond yn bump oed. Roedd o'n cadw gôl i dîm Ysgol David Livingstone, Rhodesia ac yntau ond yn wyth oed. Yn ogystal roedd o'n dangos dawn arbennig mewn chwaraeon eraill, a bu'n chwarae criced a phêl-fâs i dîm Ieuenctid Rhodesia. Oherwydd ei ddawn arbennig i chwarae pêl-fâs, cafodd gynnig ysgoloriaeth i fynd i America.

Diddorol yw sylwi mai ystyr yr enw Grobbelaar o'i gyfieithu o'r Affricàns yw 'Clumsy'. Ar adegau yn ystod ei yrfa gellid honni ei fod o'n drwsgwl, ond rhaid cyfaddef ei fod o ran amlaf yn hynod o nwyfus a heini wrth neidio a thaflu ei hun i arbed peli o bob cyfeiriad. Fel y dywedodd Neville, roedd o'n wahanol i bawb arall. Roedd rhywun yn disgwyl yr annisgwyl bob tro y byddai Bruce rhwng y pyst. Dyna pam y byddwn i yn hoffi sefyll ar y Spion Kop yn Anfield (cyn bod eisteddle yno) i gael bod mor agos ag oedd bosib iddo. Sawl tro y rhoesom ni gôr y Kop ochenaid ddofn o anfodlonrwydd o weld Bruce yn rhuthro allan o'i gôl i ganol y cae a driblo'r bêl, yn hytrach na'i chicio i le diogel. Ond chwarae teg - sawl tro y buom ni'n dangos ein hedmygedd ohono, yn ei glapio ac yn ei glodfori am iddo wneud arbediad anhygoel. Na, does na'r un golwr o safon wedi gwneud cymaint o arbediadau anhygoel a hefyd wedi gwneud cymaint o gamgymeriadau elfennol ag o. Yn sicr roedd Bruce Grobbelaar yn wahanol i bob golwr arall.

Pan oedd yn deunaw oed bu'n rhaid iddo ymuno â'r fyddin, ac am y cyfnod hwnnw mae o'n dweud — 'At one time in my life I had to kill or be killed.' Fe welodd o rai o'i ffrindiau gorau yn cael eu lladd a bu'n ofynnol iddo dynnu'r trigar fwy nag unwaith er mwyn arbed ei fywyd ei hun. Roedd o'n cyfaddef ei fod o'n dal i gael hunllefau o'r dyddiau hynny, ac o'r cyfnod arswydus hwnnw y cafodd o'r enw 'Jungle Man'.

Yn 1978 cafodd dreial gyda West Bromwich Albion, ond roedd o'n cael trafferthion i gael yr hawl i weithio ym Mhrydain, er iddo chwarae ambell gêm i Bournemouth. Mentrodd i Ganada a bu'n chwarae i dîm y Vancouver Whitecaps gyda chyn-chwaraewr Everton a Lloegr, Alan Ball. Dychwelodd i Brydain a dewis chwarae i Crew Alexandra, y tîm a oedd yn y safle isaf un yng Nghynghrair Lloegr ar y pryd. Ar un achlysur pan oedd yn Crew roedd y dyfarnwr yn bygwth ei anfon o'r maes am ei fod yn mynnu gwisgo masg hen ŵr am ei wyneb.

Roedd ei dalent yn tynnu sylw y clybiau mawr. Gofynnodd Bob Paisley, rheolwr Lerpwl iddo 'Would you like to play for Liverpool?' Ateb swta Bruce oedd 'Might as well - yes, that will do for me,' ac fe diflannodd o olwg Paisley heb holi dim mwy. Ond i Anfield y daeth Bruce ac yno y gwnaeth enw iddo'i hun. Doedd chwaraewyr Lerpwl na selogion y Kop ddim yn gefnogol iddo ar y cychwyn. Tipyn o glown oedd o — gwneud i arbediadau hawdd ymddangos yn anodd. Rowlio ar y llawr am hydoedd ar ôl dal y bêl a rhaid cofio mai golwr Lloegr, Ray Clemence oedd ffefryn y Kop ar y pryd. Wedi iddo chwarae dim ond tair gêm i ail dîm Lerpwl roedd gan Bruce ddigon o hyder i ddweud wrth Clemence ei fod o am gymryd ei le y tymor dilynol. Ac fe wnaeth hynny.

Enillodd bob anrhydedd a oedd yn bosib gyda Lerpwl er iddo wneud sawl camgymeriad. Diddanwr oedd o. Roedd o'n hoff o wisgo hetiau gwirion. Oedd, roedd o'n glown. Pan enillodd Lerpwl y cwpan yn erbyn Spurs, fe gerddodd Bruce ar ei ddwylo ar draws Wembley, ac mae'r darlun ohono yn simsanu ar ei goesau crynedig pan aeth y gêm am Gwpan Ewrop i giciau o'r smotyn yn dal yn fyw ar y cof. Pn briododd Bruce â Debbie fe wnaeth hynny mewn 'track suit'. Oedd, roedd Bruce Grobbelaar yn wahanol i bob golwr arall.

Eto i gyd, er ei fod o'n ymddangos yn dipyn o glown ar brydiau, ac yn 'tyff gei' ar droeon eraill, mae o hefyd yn gymeriad teimladwy a thosturiol iawn, fel y dangosodd o ar ôl trychinebau Hysel a Hillsborough. Drwy grefu ar i'r heddlu agor y giat yn Hillsborough fe arbedodd fywydau llawer un. Pedair awr ar hugain ar ôl y drychineb roedd Grobbelaar yn darllen un o'r llithoedd yn Eglwys Gadeiriol Lerpwl a'r dagrau yn llifo i lawr ei ruddiau. Ymwelodd â chartrefi pob un o'r teuluoedd galarus ac fe estynnodd wahoddiad iddyn nhw i'w gartref o. Bu'n gymorth mawr i'r teuluoedd hyn dros gyfnod Hillsborough.

Oedd, mi roedd Mr Clumsy - Clown - Jungle Man - Bruce David Grobbelaar yn gymeriad arbennig.

Pan gefais sgwrs hefo Neville (sydd bellach yn ei arddegau) yn Yr Oval, Caernarfon yn ddiweddar gofynnais iddo beth oedd ei farn am y cyhuddiadau a wnaed yn erbyn ei arwr, iddo werthu gemau am fwy na 'deg darn ar hugain o arian'. Distawrwydd am ennyd, ac meddai Nevill, 'Does na'r un goli yn trio colli gêm yn fwriadol nag oes?' Chwarae teg iddo - roedd o'n dal yn driw i arwr ei blentyndod - un a oedd mor wahanol i bob golwr arall.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

BORE COFFI

Neuadd Talgai, Llandegai

Mai 6, 10.00 - 12.00 dydd

Tocyn: £1

Stondin Cacennau a Chynnyrch

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT AA RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Un funud fach ...

LLOFFT

Bob hyn a hyn bydd rhai o blant Ysgol Dolbadarn yn dod am dro i Capel Coch. Weithiau cânt glywed rhywfaint am hanes y capel. Dro arall cânt weld y llestri cymun neu'r cwpanau bedydd. Bu rhai o'r plant fenga yno y diwrnod o'r blaen. Ar ei ffordd allan o'r capel fe sylwodd un o'r genod ar y grisiau mawr yng nghyntedd y capel. Ac meddai'n gwbl naturiol, 'Ella ma fanna mae o'n cysgu.' I blentyn bach, mae mor amlwg: os mai Tŷ Dduw ydi'r capel, yna llofft Duw sydd i fyny'r grisiau.

Doedd dim posibl i blentyn bach chwech oed wybod 'nad yw Ceidwad Israel yn cysgu nac yn huno' byth. Ond dyna'r gwir. Mae'r Duw Mawr yn effro o hyd. Mae ei lygaid yn gweld a'i glust yn gwrando bob munud o bob awr. Mae'n gwybod am bopeth sy'n digwydd i ni ac yn ymwybodol o'n holl anghenion. Ac un o'r pethau mwyaf gwerthfawr i bobl Dduw yw profi agosrwydd Duw a'i help mewn amgylchiadau anodd a phrofedigaethau mawr. Does dim angen na gwely na llofft ar y Brenin Mawr.

Plant ydan ni i gyd: plant ag angen eu dysgu am Dduw a'i ffyrdd. A thrwy Air Duw ei hun y cawn ein dysgu. Y Beibl sy'n dweud am Dduw, ac wrth ei ddarllen a'i dderbyn y down i wybod y gwir am ein Creawdwr. Duw ei hun sydd wedi dweud wrthym nad yw yn cysgu. Rydan ninnau yn credu hynny, ac wrth ei gymryd ar ei air y down i brofi fod y peth yn wir.

Fel yna mae hi'n gweithio: Duw yn ei ddangos ei hun yn y Beibl, a ninnau yn ymddiried yn yr hyn a ddywed. Mae trafod a dysgu a chyhoeddi'r Beibl a'i gynnwys mor sylfaenol i'r bywyd Cristnogol. Sut arall y daw neb ohonom i wybod y gwir am Dduw; neu i wybod beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg; neu i wybod sut i fyw a sut i farw? Peidiwn â diystyrru pwysigrwydd Gair Duw fel sail ein cred a'n hymddygiad fel unigolion ac eglwysi. Hebddo, does wybod be gredwn ni, na be wnawn ni, na be ddaw ohonom.

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Cyn Lywyddion Merched y Wawr Bethel.

MERCHED Y WAWR. Bu mis Mawrth yn fis prysur iawn i aelodau cangen Bethel. Nid yn unig wrth iddynt ddathlu Gŵyl Ddewi yn ôl eu harfer ond gan eu bod hefyd yn dathlu pen-blwydd y gangen yn 25 oed.

Sefydlwyd y gangen mewn cyfarfod arbennig ar Chwefror 24, 1975, pan benderfynwyd yn unfrydol bod yn rhaid i ferched Bethel hefyd gael eu cangen eu hunain o fudiad Merched y Wawr. Y llywydd cyntaf oedd Mair Price a hi fu'n sgwrsio â'r gangen yng nghyfarfod y dathlu yn Nhŷ Bwyta Meifod, Bontnewydd, nos Fercher, Mawrth 8, 2000. Adroddodd nifer o hanesion hwyliog dros ben am flynyddoedd cynnar y gangen a mwynhawyd yn arbennig hanes archebu'r tebot a rhai o'r straeon a oedd ganddi am sawl cyfarfod *difyr ac amrywiol. Y tâl aelodaeth* yn 1975 oedd 25c am y flwyddyn ac er bod pethau wedi newid tipyn go lew erbyn heddiw, deil aelodaeth yn fargen go dda.

Ar ôl swper blasus a gwrando ar sgwrs hwyliog Mair Price fe dorrwyd cacen arbennig a oedd wedi cael ei gwneud gan Margaret Williams, aelod o'r gangen. Enillwyr gwobrau rhif lwcus oedd Sharon Owen, Ceinwen Williams, Gwyneth Jones, Ellen Ellis, Anne Elis a Gwyneth Williams.

Yn ystod ei hanerchiad fel llywydd presennol y gangen, nododd Ann Lewis fod cangen Bethel wedi bod yn un llewyrchus iawn ar hyd y blynyddoedd a'r aelodaeth wedi bod yn ddigon cyson o'r cychwyn cyntaf: 37 o aelodau yn ystod y flwyddyn gyntaf yn ei hanes, ac eleni mae 40 wedi ymaelodi. Dywedodd fod 8 o'r aelodau a oedd yn y cyfarfod cyntaf chwarter canrif yn ôl yn dal i fod yn aelodau o hyd ac, ar ben hynny, roedd 13 o gyn-lywyddion y gangen yn bresennol yn y cinio dathlu. Darllenodd englyn a luniwyd gan Richard LLoyd Jones i gyfarch Cangen Bethel ar ddathlu ei phen-blwydd yn 25 oed:

Ar erchwyn eu taer warchod — y gwerthoedd
Dan garthen Gymreictod.
Wedi gwawr, bydd dydd yn dod
Emosiwn dry'n ymosod.

Cynhelir cyfarfodyddd y gangen ar yr ail ddydd Mercher o bob mis o hyd a bydd yr aelodau'n dathlu'r Nadolig a Gŵyl Ddewi gyda chinio arbennig, gyda gwsanaeth Dathlu'r Nadolig yn cael ei gynnal yng Nghapel Cysegr ac elw'r noson yn mynd tuag at achos da. Bydd y gangen hefyd yn casglu arian tuag at barti plant Ysgol Pendalar, a gynhelir yn Ysgol Brynrefail, ac yn cefnogi achosion da eraill yn gyffredinol.

Bydd cyfle i'r aelodau fwynhau nosweithiau diddan eraill yn ystod y flwyddyn, gyda chyfarfodydd yn cwmpasu adloniant, ymweliadau a theithiau dirgel, ambell noson o frethyn cartref a siaradwyr gwadd dro arall yn cyflwyno sgyrsiau ar amrywiaeth o themâu megis celf a chrefft, conginio, cadw'n heini ayyb.

Roedd llwyddiant y noson arbennig hon yn brawf diamheuol o gryfder a gwerth y gwmnïaeth ddifyr a chynhesrwydd cyfeillgarwch yr aelodau â'i gilydd.

CYDYMDEIMLO. Dydd Mercher, Mawrth 8 bu farw Mrs Myra Thomas, Min Awel gynt. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn yr ysgol pryd y cafwyd prynhawn difyr yng nghwmni'r plant a'r athrawon. Cafwyd etitemau yn ymwneud â dydd Gŵyl Dewi gan adran y babanod gyda'r adran iau yn cyflwyno rhaglen amrywiol o lefaru, canu a datganiadau offerynol. Wedi'r adloniant cafwyd paned a sgwrs. Diolchodd Mr Siencyn Griffith i'r plant a'r athrawon ar ran y clwb.

Grŵp Dawnsio Creadigol Carla - Enillwyr Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd.

GLANHAWYR CARPEDI
a POLSTRI
BRYNGWYN
Glanhau i fusnesau a chartrefi
Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
Perchnogion: DANNY A NERYS ROBERTS
CINIO SUL Y MAMAU
EBRILL 2: £13.50
A HEFYD
COFIWCH AM EIN
DeliBistro
Ffoniwch am fanylion
Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

CHWILOTA

Eisteddfod Lewis's Lerpwl

A hithau'n fis holl eisteddfodau cylch a sir yr Urdd, diddorol oedd cael benthyg copi o raglen Eisteddfod Gadeiriol Lewis's Lerpwl gan un o ddarllenwyr y golofn (gweler llun o'r flaen-ddalen). Does gen i ddim syniad am faint y parhaodd yr eisteddfod arbennig hon: copi o'r unfed eisteddfod ar ddeg a ddaeth i law, sef yr un a gynhaliwyd yn 1948. Tybed a gynhaliwyd yr eisteddfod yn flynyddol dros gyfnod yr Ail Ryfel Byd? A phryd tybed y daeth yr eisteddfod i ben? Os oes gan rai o'r darllenwyr unrhyw atgofion am rai o eisteddfodau Lerpwl, yn enwedig os oedd cysylltiadau lleol â hwy, anfonwch air.

Mae'r holl raglen, fel y gellid disgwyl, yn ddwy-ieithog, ond gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth.

Roedd yr eisteddfod yn cychwyn yn swyddogol ar y nos Fercher, ond 'Cyngerdd Mawreddog' a gynhelid ar y noson honno, a hynny yn y *Central Hall*, Lerpwl. Yr arweinydd oedd Caerwyn (ef hefyd oedd arweinydd yr eisteddfod oedd yn dilyn ar y dyddiau canlynol) a'r cadeirydd oedd Philip Whalley, un o gyfarwyddwyr Siop Lewis's. Yr hyn sy'n syndod yw fod y mynediad i'r cyngerdd yn rhad ac am ddim. 'Sgwn i sut roedd gwarchodwyr y drysau yn penderfynu pwy oedd yn cael mynediad? Trefnydd y cyngerdd oedd gŵr o'r enw Gwilym Bethel. Ef hefyd oedd ysgrifennydd yr eisteddfod, a rhoir ei enw fel W.C. Thomas, Tegfan, 174 Ffordd Penrhos, Bangor. Pam tybed y galwai ei hun yn Gwilym Bethel? Oedd ganddo gysylltiadau â Bethel y fro hon?

Mae'n ymddangos fod y cystadleuwyr yn anfon eu henwau i'r trefnydd cyn dyddiad yr eisteddfod, oherwydd rhestrir yr holl gystadleuwyr yn rhaglen y dydd, gan nodi eu dosbarth oedran a thestun eu cân. Mae ambell enw yn adnabyddus. Er enghraifft, enwir y ddiweddar Shân Emlyn ar gystadleuaeth y solo dan 14 oed, i ganu *Hei Ho* o waith Haydn Morris (a oedd yn un o'r beirniaid cerdd). Yn yr un gystadleuaeth enwir rhywun o'r enw Gwyneth Peris. Oedd cysylltiadau lleol ganddi tybed?

Ar ddydd Iau'r eisteddfod roedd y cystadleuthau ieuenctid, gyda chystadleuaeth y corau plant am un o'r gloch y pnawn. Roedd angen canu dwy gân: 'Alawon y Bryniau' a 'Y Tiwlip'. Roedd y pedwar côr yn dod o Arfon: Pen-y-groes; Seilo Bach, Caernarfon; Ebenezer, Caernarfon a'r Felinheli.

Ar y dydd Gwener roedd cystadleuthau yr her unawdau: cyfarfodydd yn dechrau am hanner awr wedi naw yn y bore, am un o'r gloch y pnawn ac am hanner awr wedi pedwar yr hwyr. Roedd dros ddwsin o unawdwyr yn ymddangos ym mhob cyfarfod, pob un yn canu dwy gân — unawd Gymraeg ac unawd heb fod yn Gymraeg. Yn eu plith roedd hen ffefrynnau megis 'Paradwys y Bardd', 'Llam y Cariadon' ac 'O, na byddai'n haf o hyd'.

Am dri o'r gloch y pnawn roedd egwyl i'r cantorion tra cynhelid seremoni'r cadeirio, am awdl neu bryddest ar un o'r testunau canlynol: 'Tân', 'Cadwynau' neu 'Ym Mrig y Morwydd'. Cynan a'r Parch William Morris oedd yn beirniadu.

Roedd y cystadleuthau adrodd yn cael eu cynnal, yn ôl y rhaglen, *'mewn ystafell o dan y neuadd fawr'*, ac roedd angen adrodd darn o lenyddiaeth a gyhoeddwyd ar ôl 1938.



RHAGLEN Y DYDD
(UNFED-AR-DDEG)
The Programme of the Eleventh
Eisteddfod Gadeiriol
CHAIR EISTEDDFOD
LEWIS'S
MAI 20, 21, 22, 1948
MAY 20, 21, 22, 1948
Agorir yr Eisteddfod yn Swyddogol
The Eisteddfod will be officially opened
am (at)
6-30, NOS FERCHER (Wednesday Evening) MAI (May) 19, 1948
gan (by
SYR IFOR WILLIAMS, D.Litt.

Tudalen flaen rhaglen yr Eisteddfod.

Deuai penllanw'r cystadlu ar y Sadwrn, gyda'r eisteddfod yn cychwyn am chwarter wedi naw y bore. Roedd unawdwyr buddugol y cyfarfodydd cynharach yn cystadlu'n erbyn ei gilydd am fathodyn aur, a'r un modd gyda'r adroddwyr.

Yn y prynhawn cynhelid cystadleuaeth y corau merched. Abercraf, Fflint, Porthaethwy a Llanberis oedd yn cystadlu. Yn ôl y rhaglen, cynrychiolydd Côr Merched Llanberis oedd Mr W. James. Pwy tybed fu'n fuddugol? Yn dilyn roedd cystadleuthau'r corau cymysg - saith côr yn cystadlu, ond dim un o'r fro hon.

Am bump yr hwyr, cynhelid cyfarfod olaf yr eisteddfod, gyda'r corau meibion yn herio'i gilydd am wobr o ganpunt a chwpan arian ynghyd â baton arian i'r arweinydd buddugol. Y ddau ddarn prawf oedd *'Sound an Alarm'* o 'Judas Maccabeus' gan Handel, a 'Pan wyf mewn Bedd', Oliver Edwards. Roedd pump o gorau'n cystadlu: Y Parlwr Du; Côr Alun, Yr Wyddgrug; Côr Meibion Rhos; Glofa Bersham a Chôr Meibion Chwarel Dinorwig dan arweiniad Peleg Williams.

Mae'n amlwg fod y rhaglen a ddaeth ar fenthyg i mi wedi bod yn eiddo i aelod o Gôr Chwarel Dinorwig neu i un o'r cefnogwyr, oherwydd cofnodwyd marciau'r holl gorau ar y rhaglen (gweler copi). A'r côr o'r fro hon oedd yn fuddugol gyda chyfanswm o 178 o farciau allan o 200. Tybed oes aelodau o'r côr hwnnw'n cofio'r achlysur, neu'n cofio cystadleuthau eraill gyda'r un côr. Rhowch wybod am hanes y côr meibion enwog hwn, a hefyd beth oedd hynt a helynt Côr Merched Llanberis.



NOTICE TO CHOIRS.—A Choir's Representative to report to the Secretary prior to 4 p.m.
To assist the organisation it is desirable that No. 1 and No. 2 Choirs should assemble in the Ante-room in good time before the competition, and ready to appear on the platform when called upon; other choirs to follow in order of competition.

Trefn y Cystadlu. Order of Competing.	Cynrychiolydd y Côr. Representative of Choir.	Marks		
POINT OF AYR UNITED MALE VOICE CHOIR	Mr. Wm. Griffiths	78	83	161
THE MOLD ALUN MALE VOICE CHOIR	Mr. M. T. Griffiths	88	86	174
COR MEIBION RHOS	Mr. Stanley Morris	80	84	164
COR MEIBION CHWAREL DINORWIG	Mr. Peleg Williams	90	85	175
BERSHAM COLLIERY MALE VOICE CHOIR	Mr. George Griffiths	71	87	158

BEIRNIADAETH Y CORAU MEIBION. CYFLWYNO'R GWOBRAU. ADJUDICATION ON MALE VOICE CHOIRS. PRESENTATION OF PRIZES.

Enwau'r Corau gyda'r marciau yn dangos Côr Meibion Chwarel Dinorwig yn fuddugol.

Ysgol Brynrefail yn dathlu'r cant

Eleni bydd Ysgol Brynrefail yn dathlu'r cant — y sefydliad yn hytrach na'r adeilad. Eisoes dechreuwyd ar y gwaith o baratoi ar gyfer y dathliadau, a cheir mwy o wybodaeth yn y rhifyn hwn o'r Eco. Amserol felly oedd derbyn atgofion gan Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug am ei chyfnod yn yr 'hen' ysgol ar ddechrau dauddegau'r ganrif ddiwethaf. Dyma dameidiau am y cyfnod hwnnw dan y teitl *'Wyt ti'n cofio Ysgol Brynrefail yn 1921?'*

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC WINDOWS
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)
NHBC
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

Fframia
GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY
PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Wyt ti'n cofio Ysgol Brynrefail yn 1921?

Ym mhentre' Brynrefail roedd yr ysgol bryd hynny, a'r pentre roes ei enw iddi, ond Llanberis District County School oedd yr enw swyddogol, a dyna fyddai ar ein copïau ac ar boced ein 'blazers': LL.D.C.S.

Y prifathro oedd Mr Foster, gŵr bonheddig, ond Sais uniaith. Yr oedd mor anodd iddo fo ag oedd hi i ni, blant y fro. Byddai'n gofyn 'Understand?' a ninnau'n deall dim!

Fel heddiw, plant o'r gwahanol ardaloedd oedd y disgyblion i gyd, ond yr oeddynt a ddeuai o Nant Peris a Dinorwig fel chwa o awel iach o'r mynydd. Plant pob pentref yn wahanol: plant Llanberis yn fwy trefol na phlant Deiniolen, a phlant Llanrug a Chwm-y-glo yn closio mwy at dre Caernarfon.

Ar wahân i'r prifathro, tri dyn oedd yn athrawon a phump neu chwech o athrawesau, Saesneg a siaradai'r athrawon â ni, er eu bod yn Gymry Cymraeg eu hiaith. Dechrau'r broses o wneud Saeson ohonom er mwyn i ni ddod ymlaen yn y byd. Ond er hyn oll roedd yn gymdeithas hapus iawn a'r plant yn gwneud ffrindiau newydd. Byddai'r rhai a basiai'r 'scholarship' neu'r 'eleven plus' yn cael eu gosod yn nosbarth 1A, a'r plant oedd yn gorfod talu yn mynd i 1B — dechrau snobyddiaeth ymysg y plant. Roedd plant 1A yn meddwl eu hunain yn dipyn clyfrach na phlant 1B, ond efallai oherwydd eu dycnwch mai 1B a ddysgai orau.

Yr oedd yr ysgol braidd yn fychan yr adeg honno, a byddai rhai o'r plant yn cael gwersi yn festri capel Brynrefail. Bu'n rhaid adeiladu rhyw fath o gwt i gynnal dosbarthiadau yn nes ymlaen — lle oer ofnadwy. Fel y tyfem, byddai yna gymdeithas ddrama: cofiaf rai 'Ffrois a'r Inspector' (enw'r de am grempog). Rwy'n credu mai Eric Davies neu Eddie Parry oedd yr awduron. Byddai'r anfarwol Robert Morris ein hathro Saesneg yn rhoi Shakespeare i ni i'w ddarllen yn uchel yn y dosbarth, a chefais y fraint o fod yn Lady Macbeth. Roeddwn wedi gwirioni, a hyd y dydd heddiw rwy'n cofio *'All the perfumes of Arabia will not sweeten this little hand ...'* Byddai'r athrawes Ffrangeg yn mynd a rhai ohonom am bnawn i Barc Caernarfon, a siarad dim ond Ffrangeg efo ni: athro Daearyddaieth yn mynd â ni i ben y Bigil, a dangos ac enwi'r holl fynyddoedd: cael te ar y lawnt o flaen y tŷ ar ddiwrnod o haf.

Roedd yn yr ysgol 'Literary Debating Society' a hwyl fawr amser leuaiwn. Doedd dim sôn am Blaid Cymru bryd hynny, a dros y Rhyddfrydwyr y byddwn i'n sefyll nes meddwl mai merch Lloyd George oeddwn i.

Doedd dim ond cerdded ar bob tywydd i'r ysgol, ac ambell waith byddai'r afon wedi gorlifo a byddai'n rhaid troi'n ôl o Stabla neu o ymyl stesion Cwm, a byddai plant Llanrug, Cwm-y-glo a Phenisarwaun yn cael diwrnod o wyliau. Doedd dim sôn am fysiau i'n cludo, ond cafodd rhai ohonom feic. Ymhen amser wedyn y daeth y bysiau, ond nid rhai arbennig i'r plant. Ei golli'n aml, a chyrraedd Penllyn yng nghar llefrith Cae Hoedyn. Mae bywyd dipyn yn haws i'r plant erbyn hyn, a diolch am hynny.

Yn anffodus ychydig ohonom sydd ar ôl o'r cyfnod hwnnw, ond efallai fod gan ambell un arall atgofion i'w rhannu yn yr Eco.

* * *

Da o beth fyddai cael pytiau tebyg gan gyn-ddisgyblion (neu gyn-athrawon) am wahanol flynyddoedd yn hanes yr ysgol o hyn hyd dathlu'r cant ym mis Medi. Beth am anfon atgofion? Does wahaniaeth pa mor hen neu ifanc mo'r sgwennwr — bydd pawb yn rhoi trem yn ôl i'r ganrif ddiwethaf!

Mae'n sicr hefyd y bydd angen digon o amrywiaeth o lunaiu i ddangos gwahanol agweddau o fywyd yr ysgol dros y ganrif a aeth heibio. Felly, ewch ati rŵan i sbring-clinio eich drôrs ac i wagio'r cisitiau yn yr atig!

Anfonwch unrhyw ymholiad neu wybodaeth ar unrhyw agwedd o hanes lleol y fro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

Rhagor o newyddion

BETHEL

DIOLCHIADAU. Dymuna plant a theulu y ddiweddar Mrs E.J. Jones (Lil) 2, Y Ddôl, Bethel gydnabod yn diolchgar i gymdogion, ffrindiau a pherthnasau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar achlysur trist o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn, ac hefyd am y rhoddion er cof tuag at Gronfa Celfi Meddygfa Waunfawr. Diolch arbennig iawn i Feddygon a Staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal tros y blynyddoedd; i'r tîm gofal cartref, staff Ward Padarn Ysbyty Eryri, cartref St Teilo a'r ymwelwyr iechyd. Diolch am gymwynasau ac ymweliadau diflino Mrs Betty Williams, Mr a Mrs Gadd a Mrs P Mellican. Diolch i'r Parch W.J. Lewis am ei wasanaeth, i Mr Goronwy Jones, Mr J.M. Griffith a Mr R.L. Jones am drefnu a chynrychioli'r capel, i Mrs G Griffith yr organyddes ac i Gwilym Jones a'i Fab am wasanaeth trylwyr.

PEIDIWCH A GORI AR STORI — ANFONWCH HI I'R *ECO*

Dathlu Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail

Daeth nifer dda o gyn ddisgyblion Ysgol Brynrefail ynghyd i Lyfrgell yr ysgol nos Fawrth, Mawrth 21 i drafod y trefniadau ar gyfer dathlu canmlwyddiant yr ysgol.

Y Prifathro, Mr Eifion Jones oedd yn cadeirio'r cyfarfod ac roedd yn eglur fod y mwyafrif oedd yn bresennol yn awyddus iawn i gynorthwyo gyda'r trefniadau.

Penderfynwyd ethol pwyllgor gwaith canolog gydag is-bwyllgorau i drefnu yr amrywiol weithgareddau. Nid oes un dim wedi ei gadarnhau'n derfynol hyd yma ond dyma fraslun o'r gweithgareddau sydd dan ystyriaeth.

Clustnodwyd yr wythnos sy'n cychwyn ar Fedi 23 fel adeg addas a pherthnasol i gynnal y gweithgareddau.

Sadwrn, Mai 23: Diwrnod Agored yn yr ysgol yn cynnwys arddangosfeydd a.y.y.b.
Am 7 o'r gloch, cinio i ddathlu'r canmlwyddiant yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.

Sul, Mai 24: Yn y prynhawn - Oedfa neu Wasanaeth i ddiolch am yr ysgol. Nid yw'r lleoliad wedi ei gadarnhau eto.

Llun, Mai 25: Darlith ar Hanes yr Ysgol a / neu sesiwn i rannu atgofion.

Mawrth, Mai 26: Sioe Gerdd gan ddisgyblion yr ysgol yn y neuadd.

Mercher, Mai 27: Dim wedi ei drefnu eto.

Iau, Mai 28: Cyngerdd gan gyn ddisgyblion a chyfeillion yr ysgol yn y neuadd.

Gwener, Mai 29: Os bydd gofyn mawr am docynnau i'r cyngerdd gellir cael ail berfformiad ar y noson hon.

Sadwrn, Mai 30: Dim wedi ei drefnu eto.

Mae gweithgareddau eraill wedi eu trefnu eisoes. Ar Ebrill 7 bydd y disgyblion a'r staff presennol yn cael llun o'r ysgol wedi ei dynnu.

Nos Lun a nos Fawrth, Gorffennaf 10 - 11 fe berfformir Sioe Gerdd gan y disgyblion. Comisiynwyd hon yn arbennig ar gyfer yr ysgol. Bydd y sgript gan gyn ddisgybl, Eirug Wyn a'r gerddoriaeth gan gerddor cymwys iawn, Euros Rees Evans.

Bwriedir gwerthu plât wedi ei ysgythru i ddynodi'r achlysur hwn.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cynorthwyo gydag unrhyw weithgaredd rhowch wybod i Brifathro'r ysgol.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR DOSBARTH CWM-Y-GLO.

Cynhelir un cyfarfod eleni yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, bnawn Sul, Ebrill 16 am 2 o'r gloch. Trefnwyd y rhaglen i gynnwys emynau ar gyfer y plant a'r oedolion a gobeithir cael cefnogaeth deilwng. Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 1.15pm gan alw ym Mhenisarwaun am 1.25pm, Cwm-y-glo am 1.30pm a chyrraedd Llanberis am 1.35pm.

Hyderwn y bydd yn Gymanfa fendithiol i bawb.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Arwerthiant Cist Car

yn y Maes Parcio Ysbyty Gwynedd

(dros y ffordd i'r Post)

Ebrill 29

9.00 ymlaen

£5 y car

Lluniaeth ar gael

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug

Caernarfon 673513

Ffôn Symudol: 07774 496616



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:- Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

(0589) 899901

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

SEFYDLIAD Y MERCHED. Dathlwyd Gŵyl Ddewi y Sefydliad ar bnawn lau, Mawrth 2 gyda Mr Meirion Hughes, Caernarfon yn ŵr gwadd. Cafwyd sgyrsiau diddorol ganddo am 'Ysgol Jôs Bach' a'r 'Baton Aur'. Diolchwyd iddo gan Mrs Catherine Jones. Croesawodd Mrs Mair W. Williams y Llywydd, Mrs Pat Simpson o Betws Garmon fel aelod newydd. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei roi gan Mrs Mair Parry gan Mrs Peggy Jones. Ar ôl y cyfarfod cafwyd lluniaeth ysgafn wedi'i drefnu gan yr aelodau. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar bnawn lau, Ebrill 6 pryd y ceir sgwrs gan Mr Robin Jones o 'Age Concern'. Croeso cynnes i aelodau newydd.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Mr Gerallt Pennant oedd y siaradwr yng nghyfarfod olaf y tymor o'r Gymdeithas ar nos Lun, Mawrth 13. Cafwyd sgwrs a sleidiau ar y testun 'Tu hwnt i'r ardd'. Rhoddodd Mr Pennant olwg wahanol a diddorol iawn ar blanhigion a choed anghyffredin, gan egfluro sut y daethant yn rhai cyffredin yn ein gerddi. Roedd yr aelodau wedi mwynhau'r noson yn fawr. Y Llywydd oedd Mr Gwilym O Williams a ddiolchodd i'r siaradwr. Pasiwyd yn unfrydol fod eisiau Cymdeithas eto y tymor nesaf a'r pwyllgor presennol i weithredu, ynghyd â Miss Ifanwy Rhisiart a Mr Rol Williams.

Cafwyd lluniaeth ysgafn ar ôl y cyfarfod wedi'i drefnu gan aelodau'r pwyllgor. Gobeithir trefnu trip yn ystod yr haf.

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror: £40: Mr V.J. Davies, Bryn Gwyrfai; £25: Mrs Alma JOnes, Tan y Fron; £10: Mr J.H. Edwards, Anneddle.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Mary Evans, 7 Tref Eilian, Waunfawr (Rhosgadfan gynt) ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a hefyd am y cymorth a dderbyniodd pan yn symud o Rosgadfan i Waunfawr. Diolch i bawb.

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfodydd llawn o'r Cyngor ar 13 Ionawr, 2000 a 21 Chwefror, 2000.

Cafwyd cadarnhad y bydd yr Heddlu yn gyrru drwy stad Dol Erddi yn achlysurol wedi i gwynion gael eu derbyn ynglŷn â phobl yn chwarae pêl-droed yn y stryd.

Bydd y Cyngor yn dilyn i fyny gwynion a gafwyd ynglŷn â sŵn yn deillio o fast telathrebu yn Groeslon, Waunfawr.

Bydd y Cyngor yn argymell i'r Grŵp Gwirfoddol sydd yn cefnogi Rheilffordd Ucheldir Cymru eu bod nhw yn sefydlu pwyllgor gwaith bach i drefnu dathliadau ar gyfer y trên cyntaf fydd yn cyrraedd gorsaf Waunfawr (mae'n debyg ym mis Mai 2000). Bydd y cyngor yn fodlon enwebu un o'i aelodau i eistedd ar y pwyllgor yma.

Adroddwyd nad oedd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol wrthwynebiad i gais cynllunio i adeiladu estyniad i gwrtil presennol a mynedfa newydd yn Ty'n Coed, Waunfawr.

Penderfynwyd peidio â hawlio mwy o gyllid i'r Cyngor drwy gadw Praesept 2000/2001 ar yr un lefel â llynedd (a'r flwyddyn cynt).

Bydd cynrychiolydd o Tasglu Amgylcheddol Gwynedd (TAG Arfon) yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor ar 28 Mawrth 2000.

Bydd y Cyng Bryn Jones yn cynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Waunfawr.

Derbyniwyd argymhellion Cyngor Gwynedd i osod grid metel wedi ei folltio i'r ddaear mewn modd y gallai pobl edrych i mewn i'r ffynnon ar safle ffynnon Pant Gwyn. Bydd hyn yn gwella sefyllfa ddiogewch y safle (yn enwedig i gerddwyr).

Aroddwyd fod giât fochyn newydd wedi cael ei osod ar lwybr cyhoeddus rhif 9 ger Pengamdda.

Bydd Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn ceisio sylwadau yr Heddlu cyn cysidro ymhellach yr angen am linell felen ddwbl yn ymestyn o'r gyffordd hyd at Manchester House.

Gosodwyd y gwaith o dorri glaswellt llwybrau Waunfawr a Chaeathro, Mynwent y Plwyf a Cae Chwarae Gerddi Bach am dymor 2000 i gwmnïau lleol.

Bydd y Cyngor yn cyfrannu £3 y pen i bob disgybl blwyddyn chwech o Ysgol Waunfawr fydd yn manteisio ar y cyfle i ymweld â Ynys Enlli yn ddiweddarach eleni.

Cadarnhawyd y bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau a chymdeithasau lleol yn ystod ei chyfarfod ar 28 Mawrth, 2000.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 28 Mawrth yn y Ganolfan, Waunfawr am 7 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU AR ENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Anna a Gareth Williams, Gwastadfaes ar enedigaeth mab bychan, Huw Emrys Lloyd, brawd bach i Sara a Dafydd ac ŵyr bychan i Emrys Lloyd Hughes, Dreflan Isa.

Llongyfarchion hefyd i deulu 1 Bro Waun ar enedigaeth plentyn bychan.

ADREF O'R YSBYTY. Bu Dafydd Llwyd, mab bychan Nia a Gary, Stad Tŷ Hen yn yr ysbyty am gyfnod a gorfu i Nia ei hun dreulio ychydig amser yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod yn gwella.

CÂN ACTOL. Llongyfarchiadau i aelodau Cân Actol yr Urdd a'u hyfforddwyr ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cylch yr Urdd. Byddant yn cystadlu eto yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ar Ebrill 1. Pob lwc ichi.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Idris Jones fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 91 oed yn ystod y mis.

DYWEDDÏO. Llongyfarchiadau i Derfel Williams, Bryn Beddau ar ei ddyweddïad â Ceri Morris o Gaernarfon.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYFARFOD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD. Cafwyd cynulliad da iawn y flwyddyn hon eto i'r Cyfarfod Gweddi blynyddol a gynhaliwyd yn Festri Capel Ebeneser. Mrs Jane Jones oedd yr arweinydd ac aelodau eglwysi'r cylch yn cymryd rhan yn y darlleniadau. Da oedd gweld mamau ifanc yn cymryd rhan am y tro cyntaf, hefyd yr hen ffyddloniaid, a Miss Jean Parc Jones yn cyfeilio.

Diolchwyd i Mrs Margaret C. Griffith am fod yng ngofal y Cyfarfod am rai blynyddoedd.

Cytunodd Mrs Linda Owen a Mrs Anwen Jones i fod yng ngofal y gwaith y flwyddyn nesaf.

CYMEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Yn neuadd yr eglwys ar Fawrth 6 cynhaliwyd cyfarfod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mwynhawyd swper o gawl a chrempog wedi eu paratoi gan aelodau'r gymdeithas. Yna cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr I.M. Griffith, Bethel. Ei destun oedd y llinell adnabyddus: 'Ac ni fu dwthwn fel y dwthwn hwn.'

Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y Parchedig Tegid Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 3 am 7 o'r gloch a'r gŵr gwadd fydd Mr Ken Jones yn sgwrsio am Lanberis.

DRAENOG

Do, fe ddaru ambell un gawl o bethau adeg troi'r clociau nos Sadwrn dwytha. Gan fod gofod yn brin, bydd rhaid i chi fodloni ar ddwy o'r straeon a ddaeth i'm clyw.

Anghofio troi'r cloc ymlaen fydd y rhai sy'n arfer gwneud cawl o bethau yr adeg hon o'r flwyddyn, a chyrraedd y capel neu rywle arall yn hwyr. Ond mae'r ddwy stori orau eleni am bobl lwyddodd i fod YN GYNNAR!

Dyna i chi'r wraig honno o Ddeiniolen a newidiodd y cloc DDWY WAITH, gan lwyddo felly i fod awr ar y blaen i'w chymdogion ym Mro Deiniol erbyn canol bore Sul. Roedd hi mor benderfynol o beidio anghofio troi'r awr.

Ond yr orau oedd y wraig o Lanrug aeth ag un o'r plant i Blas Menai i nofio ben bore. Roedd hi WEDI COFIO troi'r awr, ac eto pan gyrhaeddodd Blas Menai ar yr amser arferol doedd neb yno. Bu'n disgwyl yn hir — am awr gyfan — cyn i neb arall gyrraedd. Fedrai hi yn ei byw â deall pam fod y lle mor ddistaw, a hithau mor brysur yno fel arfer ar fore SADWRN. Do, roedd hi wedi troi'r awr ddiwrnod yn gynnar. Y flwyddyn nesaf, bydd rhaid SIANelu'r egni i wneud yn saff fod y diwrnod cywir gennych.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Ffôn: (01286) 870253

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ *Porches*

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ *Conserfateris*

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Carnifal Llanberis 2000

Dewiswyd y canlynol mewn Disgo yn y Ganolfan nos Wener diwethaf: Brenhines: Sophie Jarvis, Gweinyddesau: Sara Jones a Katherine Heald, Gwas: Bedwyr Davies.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror yn y Rheithordy. Cymerwyd y rhan agoriadol trwy weddi gan Mrs Audrey Evans. Cyflwynodd Mr Ralph Jones y gŵr gwadd, sef Mr Duncan Brown o'r Waunfawr. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ar Dirwedd a Thirlyn Cefn Gwlad, rhan o'i waith dyddiol gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Talwyd y diolchiadau i Mr Brown, Mrs Heulwen Lewis a Mrs Elisabeth Roberts am y baned a'r raffl gan Mr Stanley Owen, a'r enillydd lwcus oedd Mrs Nancy Jones.

UNDEB Y MAMAU. Yn Festri Eglwys St Padarn pnawn dydd Mawrth, Chwefror y cyntaf cynhaliwyd y cyfarfod misol o dan arweiniad Mrs Betty Humphreys. Ail etholwyd y canlynol fel swyddogion am y flwyddyn bresennol.

'Enrolling Member': Mrs Betty Humphreys; Trysoryddes: Mrs Nan Owen; Ysgrifenyddes: Mrs Audrey Evans. Derbnyniwyd y swyddi gan y tair.

Tynnwyd rhaglen ddiddorol am y misoedd nesaf a gwnaed trefniadau ar gyfer y 'Lady Day'. Gwasanaeth i'w gynnal yn y Gadeirlan fis Mawrth.

I orffen y pnawn roedd rhai o'r aelodau wedi dod a hen drysor (antique) hefo nhw a chafwyd amser hapus yn sgwrsio amdanynt. Enillwyd y raffl gan Mrs Audrey Evans.

Diolchwyd i Mrs Betty Humphreys am y lluniaeth ysgafn ac i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gan Mrs Clara Roberts, gyda Mrs Bet Hughes yn ailio. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

Cynhaliwyd cyfarfod Undeb y Mamau Eglwys St Padarn yn y Rheithordy pnawn dydd Mawrth, Mawrth 7. Y Rheithor, y Parch Philip Hughes arweiniodd y gwasanaeth a'r gweddïau. Y siaradwr gwadd oedd Mr Ralph Jones, Taliesin, a chafwyd amser hynod o ddiddorol yn ei gwmni pan eglurodd wir ystyr 'Dydd Mawrth Crempog'. Roedd yn amlwg fod oriau o ymchwil wedi eu gwneud i ddarganfod y fath wybodaeth a mwynhawyd ei sgwrs addysgol yn fawr iawn.

Yn dilyn, derbyniwyd Cofnodion y mis blaenorol a derbyniwyd hwy yn gywir. Gwnaed trefniadau ynglŷn â gwasanaeth arbennig 'Lady Day' i'w gynnal yn y Gadeirlan ddydd Sadwrn, 25 o'r mis yma.

Mrs Nan Owen oedd yn ymorol am y baned a hi hefyd, gyda Mrs Kathleen Williams yn eilio ddiolchodd i Mr Ralph Jones am ei sgwrs. Diolchodd Mrs Bet Hughes i'r Rheithor am ei garedigrwydd yn agor drws ei gartref i ni. Enillydd y raffl oedd Mrs Audrey Evans. Diweddwyd trwy adrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH. Estynnwn groeso i Ms Linda Owen fel ein Swyddog Mewn Gofal ar ôl i Mrs Christine Williams gael ei phenodi i'w swydd newydd ym Mangor.

Wedi dod atom mae Mrs Vera Jones a Mrs G.E. Thomas. Maent yn gyfarwydd â'r Cartref ers tro gan fod Mrs Jones wedi bod yn mynychu Gofal Dydd a Mrs Thomas yn byw drws nesaf i'r Cartref.

Ar lonawr 2 cawsom ein diddori gan Mr Dafydd Bullock, Bethesda ac fe fwynhaodd pawb eu hunain yn gwrando arno. Diolch yn fawr iawn iddo am ddod.

Hoffem ddiolch yn fawr i deulu'r ddiweddar Mrs Nellie W. Pritchard am eu rhodd i'r Cartref er cof am eu mam. Diolch yn fawr iawn.

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mr a Mrs Munro, sef Mrs N O'Brien a Mrs V. Davies a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli'r ddau ohonynt. Mr Munro ym mis Ionawr a Mrs Munro ym mis Chwefror. Roeddynt wedi ymgartrefu yng Nghartref y Borth ar ôl ein gadael ni ym Mhlas Pengwaith.

Y mae Ms O. Price wedi symud i gartref Plas-y-Bryn, Bontnewydd a dymunwn bob hapusrwydd iddi yno.

Llongyfarchiadau i Jennifer Roberts ar ei hymdrech i godi arian i'r Cartref trwy golli pwysau. Mae wedi gwneud hyn ac wedi codi swm da iawn i Gronfa'r Preswylwyr. Da iawn, Jen.

Rydym yn brysur yn y Cartref ar hyn o bryd yn rhoi gwres canolog i mewn, a gosod ffenestri dwbwl, ac mae'n rhaid ymddiheuro i bawb a fu'n galw am y gwaith sy'n mynd ymlaen. Rydym hefyd yn gobeithio cael addurno nifer o'r ystafelloedd.

Triust yw cyhoeddi marwolaeth Mrs Cassie G. Davies, gynt o 6 Dol Elidir yn Ysbyty Gwynedd ym mis Mawrth, neu Anti Cassie i bawb oedd yn ei hadnabod. Roedd wedi ymgartrefu'n hapus ym Mhlas Pengwaith ers tro. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae Mrs K. Williams a Mrs P. Jones a dymunwn wellhad buan iddynt.

Byddd Mrs D. Griffiths a Mrs M.A. Roberts yn dathlu eu pen-blwydd ym mis Ebrill. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Pob lwc a hapusrwydd i Elen Flynn. Wedi geni ei phlentyn mae'n gadael y Cartref ond edrychwn ymlaen i'w chroesawu yn ei hôl i weithio yma yn achlysurol.

DIOLCH. Dymuna Derek Jones, 62 Maes Padarn ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, arian, caridau a galwdau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 60 oed. Diolch un ac oll.

DIOLCH. Hoffai Mari Wyn ddiolch am y galwadau ffôn a'r cardiau yn ei llongyfarch ar ôl ymddangos ar 'Y Bocs' S4C yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Graham a Nerys, Talwrn, Sir Fôn ddiolch i bawb am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu mab, Owain Llŷr, ŵyr i Grace Roberts, Hyfrydle. Diolch o galon i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mr Hugh Morris, Maes Padarn ddiolch yn fawr iawn i bawb am y rhoddion, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Ann Pritchard, Madryn ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Dymuna Olwen a theulu y diweddar Ernest Roberts, 3 Rhes Faenol ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Hefyd diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis.

Diolch i'r Parch Philip Hughes am ei wasanaeth, cymorth a geiriau caredig ac i Mr E.W. Pritchard a Gwynfor Jones am yr holl drefniadau.

DIOLCH. Dymuna Elwen, Non a theulu'r ddiweddar Mrs Nellie Jones, Cynlas, ddatgan eu diolchgarwch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain. Diolch hefyd i'r Parchedigion John Pritchard a John Owen am eu cyfraniad. Hefyd i Mr Gareth Jones am ei wasanaeth. Diolch hefyd i Mri Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am eu trefniadau.

DIOLCH. Dymuna Ken a Iola Sellars a'r genod ddiolch i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a thrigolion Llanberis a'r pentrefi cyfagos am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth drist o golli wyres a nith fach hoffus iawn, sef Cadi yn ddim ond 5 mis a hanner oed.

Diolch yn arbennig i Norah, Catherine, Helen, Meryl, Marian ac Ann Parry am eu cymorth a'u gofal drosom ac i'n cynnal ymlaen yn ystod yr wythnosau diwethaf. Diolch hefyd i griw 'dawnsio llinell' Llanberis a phwyllgor Eisteddfod yr ardal. Diolch o galon i bawb.

AELWYD. Bu dau dîm pêl-droed 5-bob-ochr yn cystadlu yng ngornest bêl-droed yr Urdd ym Mhen-y-groes yn ddiweddar. Bu ond y dim i'r tîm hynaf gyrraedd y rownd derfynol. Ar y reffari roedd y bai am beidio caniatáu un gôl a sgoriwyd yn gyfreithlon gan yr hogiau.

CAPEL COCH. Yn ystod wythnos hanner tymor yr ysgol bu timau pêl-droed a phêl-rwyd yn cystadlu yn Chwaraeon Ysgolion Sul Arfon yn y Ganolfan Chwaraeon yng Nghaernarfon. Roedd dau dîm pêl-droed cynradd a dau dîm uwchradd ac yn rhyfedd iawn eleni y timau iau yn y ddau oedran a wnaeth orau. Ond ni chyrhaeddodd yr un o'r pedwar tîm, y rownd derfynol. Bu'r timau pêl-rwyd yn fwy llwyddiannus, gyda genod y tîm uwchradd yn gwneud yn arbennig o dda yn erbyn merched oedd bedair blynedd yn hŷn na hwy. Ond y sêr oedd aelodau'r tîm pêl-rwyd cynradd a ddaeth yn ail yn eu cystadleuaeth, a'r tîm yn cynnwys tri o fechgyn oedd wedi eu llusgo yno ar y funud olaf am ein bod yn brin o chwaraewyr.

COLEG Y BALA. Bu ugain o bobl ifanc Clwb y Capel yng Ngholeg y Bala nos Fercher, Mawrth 8. Cafwyd pryd o fwyd i ddechrau ac yna sesiwm amrywiol yng ngofal y Parch Bryn Williams (Llanrug gynt) sy'n arwain gwaith y Ganolfan Ieuenctid yn y Coleg. Cafwyd amser da, a chroeso mawr gan Bryn a'i gydweithwyr. Byddai Bryn yn falch o groesawu criwiau o gapeli eraill i ymweld âr Coleg unai ar ymweliad gyda'r nos fel hyn neu i dreulio diwrnod neu ddau yno.

CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN. Enillwyr Mawrth 200 oedd: (181) Rhiannon Jones, Tŷ Ucha'r Ffordd - £35; (30) Dr Gwyn Williams, 3 Preswylfa - £25; (78) Jane Roberts, Rallt Isaf - £15; (6) Anwen Williams, 3 Preswylfa - £10; (133) Ceinwen Williams, Cambrian Terrace - £5.

Eglwysi Llanberis yn cyflwyno

GLODDEST BYWYD

Cantata gan Garth Hewitt

yn

Eglwys Sant Padarn

Nos Sul y Pasg
Ebrill 23 am
6.30 o'r gloch

Croeso i bawb

Casgliad at Gymorth Cristnogol

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PWYLLGOR NEWYDD. Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd 1. Alwyn Hughes, Aljen; 2. Mrs E.J. Williams, 2 Bryntirion; 3. Osian Dafydd, Sycharth.

YSGOL SUL BOSRA. Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Seiloh, Tregarth bnawn Sul, Ebrill 9 am 2 o'r gloch. Trefnir bws ac mae croeso i unrhyw un ddod arno i gefnogi'r plant.

Bydd Cymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Jerusalem, Llanberis bnawn Sul, Ebrill 16 am 2 o'r gloch. Bydd y bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 1.15 ac yn galw ym Mhenisarwaun oddeutu 1.25. Hyderir y bydd y ddwy Gymanfa yn fendithiol i bawb.

EGLWYS SANTES HELEN. Gwasanaethau'r Wythnos Fawr a'r Pasg:

Dydd Sul, Ebrill 16 - Sul y Blodau - Cymun Bendigaid a Bendithio'r Dail Palmwydd am 10.am;

Dydd Mercher yn yr Wythnos Fawr - Ebrill 19 - Cymun Bendigaid a Myfyrdod am 7 yr hwyr;

Dydd Gwener y Groglith - Ebrill 21 - Cyn-gymun a Litani am 10.30am;

Dydd Pasg - Ebrill 23 - Cymun Bendigaid am 10.30am;

Cynhelir Festri'r Pasg eleni yn Neuadd Santes Helen, nos Wener, Ebrill 14 am 7 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU gwresog i Mrs Annie Williams, Meillionydd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 101 ar Fawrth 20 - un a all ymfalchïo o gael byw mewn tair canrif ac a welodd newidiadau dybryd yn ystod ei bywyd. Cofion annwyl atoch oddi wrthym i gyd yn y pentref a bro'r Eco.

YR YSGOL GYMUNED.

Unwaith mewn amser
O ddarn o goed yr ardd,
Geppetto gerfiodd byped
Un cryf a da a hardd.

'Pinocio' oedd y pantomeim gwych a berfformiwyd gan holl blant yr ysgol. Roedd y canu, y dawnsio a'r actio yn glodwiw iawn ac fe fwynhaodd pawb y perfformiadau. Addawyd lluniau yn y rhifyn hwn, felly dyma rai o'r prif gymeriadau.

SIALENS DIFFEITHWCH ALASCA. Bydd Geraint Williams, Careb, 8 Bryn Eglwys yn herio diffeithwch Alasca er mwyn codi arian tuag at y Byddar/ddall. Am 7 niwrnod bydd yn herio mynyddoedd iâ a chroesi afonydd rhewllyd am 8 awr y dydd.

I gymryd rhan yn yr her hon mae'n ofynnol i Geraint godi'r swm sylweddol o £2,250 er budd yr Elusen. Os dymunwch ei noddi cysyllter â Geraint ar 872408, y mae rhai o'i gyfeillion hefyd gyda ffurflenni noddi..

URDD ADRAN BENTREF. Chwefror 29 - Dathlwyd Gŵyl Ddewi hefo Dawnsio Gwerin yng ngofal Judith Harding a Nia Lewis. Mawrth 7 - Cafwyd 'Fy Hoff Beth' ac eitemau Eisteddfod yr Urdd. Mawrth 21 - mwynhawyd Dawnsio Llinell gydag Anti Jean. Mawrth 28 - Noson o wneud cartwnau gyda Mr Humphreys. Llongyferchir pawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Cylch.

Daeth Anest Eifion ac Anest Bryn yn gyntaf ac ail ar Ddawnsio Gwerin Unigol. Daeth Lois Eifion yn gyntaf ar chwarae'r delyn ac ail ar y piano. Cafodd Kieron Hughes lwyfan ar ganu dan 8 oed hefyd. Lois a Bedwyr a enillodd ar y ddeuawd. Dymunir pob hwyl i bawb yn yr Eisteddfod Sir yn Neuadd PJ, Bangor ar Sadwrn Ebrill 1 - a phob dymuniad da i Cenin Eifion yn Eisteddfod Sir yr Oedran Uwch.

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Cymeriadau'r Pantomeim

Dylan a Bedwyr.

Y dawnswyr heini.

Sioned Alaw, Anest Eifion a Sarah Woodward.

MARGARET MUNRO Tŷ Capel, Penisarwaun gynt). Bore Mawrth, Chwefror 15, 2000, ar ôl cystudd hir a blin, bu farw Mam yn 89 mlwydd oed. Cawsom wasanaeth o ddiolchgarwch am ei bywyd yng nghapel Amlosgfa Bangor, Chwefror 21, dan arweiniad Mr Merfyn Jones a'r Parch Richard Glyn Jones.

Yn ei deyrnged deimladwy i Mam soniodd Merfyn Jones amdani fel 'dynes y bwrdd'. Roedd y bwrdd yn bwysig ym mywyd y teulu - roedd croeso i bawb i rannu o beth oedd arno, roedd o'n fwrdd y trafod, y penderfyniadau, yn fwrdd swper chwarel a the'r gweinidog ar y Sul. Mor ddidwyll a gofalus y bu Mam yn gofalu am fwrdd y Cymun - roedd yn fraint ganddi gymryd y cyfrifoldeb.

Cafodd Valerie a finna fam arbennig - un bendant ei meddwl ar yr aelwyd, yn y capel ac yn yr ardal. Bu'n gymwynasgar erioed - 'gweddi fer mewn dillad gwaith' oedd ei ffordd hi o helpu pawb yn ddi-wahân. Roedd y darlleniad am 'Y Fam' yn ddarlun cywir ohoni.

Yn ystod y mis cwta ar ôl marw Dad, tawel iawn fu Mam a'i dymuniad dyddiol oedd cael 'mynd at Iesu Grist a Jim'. Roedd edrych arni'n dioddef yn egr, ond o rannu'r baich cefais fod yn rhan o'r fraint.

Diolch i bob un fy'n gydymaith i Mam. Mae'n diolch yn arbennig i Elinor am ei ffyddlondeb i'n rhieni ac am ei sirioldeb a'i charedigrwydd mawr tuag atynt. Diolchwn am bob arwydd o gydymdeimlad â ni yn ein tristwch ac am y rhoddion hael er cof amdani.

Anfonwyd cyfanswm o £820 er cof am Dad a Mam i Hosbis y Plant, Tŷ Gobaith.

MAM

Diolch i chi am fod.

Yn fy hiraeth amdanoch dwi'n diolch am i Valerie a minnau a'n teuluoedd gael eich cwmni cyhyd.

Diolch i chi am eich gofal annwyl amdanom, am eich cariad ac am esiampl ac arweiniad. Mi gofiwn am eich sioroldeb a'ch hiwmor - ac am eich cymwynasgarwch yn y cartref ac i'r ardal.

Edmygwn eich cryfder yn ein cynnal yn ein tristwch o golli Dad, a'ch dewrder yn wyneb poen difrifol afiechyd hyll.

Mam, heddiw, er ein bod hi'n brifo o'ch colli chi 'da ni'n diolch na fedr neb na dim eich brifo chi byth mwy.

Wrth ddiolch am eich bywyd fe gofiwn eich ffrindiau, y rhai fu'n cyd-gerdded â chi, y rhai y bu ichi fwynhau a thrysori eu cwmni. Yn arbennig diolchwn am gydymdeimlad y rhai fu'n gofalu amdanoch, y rhai fu'n ceisio lleddfu'ch poen a'r ffrindiau oedd mor dyner eu gofal wrth i chi'n gadael ni.

'Da ni'n eich colli chi'ch dau, Mam a Dad.

Diolch i chi am fod, am bob hapusrwydd ac am gymorth mewn gofid, am gyfoethogi'n bywydau ar y ddaear ac am aros efo ni yn yr ysbryd. Bydd i'n galar amdanoch gael ei liniaru gan felysder ein hatgofion o hapusrwydd a chariad a bydd i ni dawelwch o wybod eich bod gyda'ch gilydd yn saff.

Cysgwch yn dawel eich dau a gwyn eich byd.

'Welwn ni chi.

CYFRES NEWYDD

Mae gen i gariad...

Tybed?

MAE GEN I GARIAD...
8.30
NOS FAWRTH
YN CYCHWYN 4 EBRILL
www.s4c.co.uk
S4C

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn. Ffôn: (01286) 872276

MARWOLAETH. Ar Chwefror 29 bu farw Mrs Ceinwen Roberts, Tan-y-coed. Ganed a maged hi yn Rhianfa, Ffordd yr Orsaf ac yno y cartrefodd nes priodi a mynd i fyw i Geunant. Yno bu hi a'i phriod, Hugh Lewis Roberts, yn cadw Tŷ Capel, Tan-y-coed am flynyddoedd. Yna aeth i fyw i Tai Tan-y-coed a bu yr un mor ffyddlon a gweithgar yn y capel wedi ymuno â Chapel y Rhos.

Yr oedd yn gymdoges arbennig iawn ac yn ffrind ffyddlon i'w theulu a'i ffrindiau. Ni chymerai ran gyhoeddus ond ymddiddorai yn y diwylliant Cymraeg er dyddiau ieuenctid hefo'r Urddd (Urdd Gobaith Cymru Fach fel y'i gelwid). Cefnogai'n selog yr Eisteddfod, y Gymdeithas Lenyddol, Merched y Wawr a Blodau'r Grug ac wrth gwrs, crefydd.

Bydd chwithdod mawr ar ei hol a chydymdeimlir yn ddiffuant â'r ferch Owena a John, ei dwy wyres a thri ŵyr.

Clwb Eryri

Yn y cyfarfod ar **nos Wener, Chwefror 4** cyfeiriodd y llywydd, John Emlyn Hughes, at gamp John Roberts Williams yn ennill Gwobr Syr Anthony Hopkins am ei orchestwaith mewn cydweithrediad â Geoff Charles yn llunio'r ffilm arloesol *Etifeddiaeth* yn 1949. Diolchwyd hefyd i Fardd y Clwb, R. Gwynn Davies, oedd yn ymddeol o'i barchus awenyddol swydd wedi blynyddoedd o ganu cywrain yn y mesurau caeth a rhydd.

Cadeirydd y noson oedd Arwel Jones a gyflwynodd y siaradwr, Gwyn Hefin Jones. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo, wedi rhagarweiniad fideo celfydd a chynhwysfawr, ar hanes Nant Gwrtheyrn o'i ddyddiau cynnar Brythonig hyd at heddiw pryd y deil i ffynnu fel cadarnle hybu iaith a diwylliant Cymru. Wedi trafodaeth amrywiol ei naws o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr yn ddiffuant a gwreiddiol ar fydr a chân gan Geraint Lloyd Owen.

Wrth gloi'r cyfarfod, cyhoeddodd y llywydd bod Cinio Gŵyl Ddewi'r Clwb ar nos Wener, Chwefror 25 (7 - 7.30 o'r gloch) yng Ngwesty'r Victoria. Y gŵr gwadd fydd Rol Williams, Waunfawr, yr unig un bellach i oroesi o'r criw a sefydlodd 'Clwb Eryri' a cheir sgwrs ganddo am rai o droeon trwstan a chymeriadau'r gwmniaeth fu'n britho'i gof.

Ar nos Wener, Chwefror 23 cafwyd cynrychiolaeth dda o aelodau a'u cymheiriaid i ginio dathlu gŵyl ein nawddsant. Yn ei sylwadau wedi'r wledd, cyfeiriodd y llywydd, John Emlyn Hughes at y tymor fel un llwyddiannus drwyddo draw a diolchodd am gyfraniad y siaradwyr a fu a'r swyddogion, yn bennaf, am eu cyfraniad.

Chwith oedd ganddo feddwl am fardd y clwb, R. Gwynn Davies, yn rhoi taw ar ei grwth wedi wyth mlynedd arbennig fel bardd y clwb a hyderai y deuai iddo olynydd teilwng maes o law. Trist oedd gorfod cofnodi colledion a ddaeth i ran y Clwb yn ystod 1999, sef Emyr Jones yn Awst ac Ieuan Ellis ym Medi. Galwyd i gof nodweddion amlycaf y ddau, sef ffraethineb ac ymroddiad Emyr a llonder afiaethus Ieuan a'i ddiwydrwydd digymrodedd fel trysorydd y Clwb am flynyddoedd.

Cyflwynwyd y gŵr gwadd, Rol Williams, a chyfeiriwyd at ei le unigryw fel yr unig un i oroesi o'r aelodau gwreiddiol pan sefydlwyd y Clwb yn 1955. Soniodd y llywydd am ei lwyr ymroddiad fel ysgrifennydd a threfnydd cyffredinol y gweithgareddau am 35 mlynedd. Teimlid mai priodol iawn oedd cael un a nodweddai ysbryd ac ystyr bodolaeth Clwb Eryri i'w annerch yng nghinio Gŵyl Dewi cynta'r mileniwm newydd.

Yn ei sgwrs, soniodd Rol am rai o'r 'cymeriadau' y bu'n ffodus i'w hadnabod gydol y blynyddoedd a chafwyd aml i stori a hanesyn i ddiddori'r gwrandawyr. Fel diweddglo i'w sgwrs dangoswyd sioe o luniau allan o archifau'r Clwb. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan yr is-lywydd John Hugh Hughes a thalodd deyrnged hefyd i'r llywydd am ei arweiniad call a di-lol dros y tymor.

Gwerthfawrogwyd hefyd gefnogaeth staff y Victoria ganddo a chlodd ei sylwadau trwy atgoffa pawb am y wibdaith flynyddol a drefnir gan Edgar Parry, ddydd Sadwrn, 17 Mehefin, a chyfarfod o'r swyddogion yng nghartre'r llywydd nos Lunl, Mai 8 am 7 o'r gloch.

AM OFFER TŶ A GARDD . . .
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn rhoi gwên ar wynebau'r plant

Y mae Cyfeillion Ysbyty Gwynedd wedi cyfranu £540 i POD (Performance On Demand), sef cwmni sydd yn mynd o amgylch ysbytai i ddiddori plant. Bydd aelod o'r cwmni yn mynd i Ward y Plant yn Ysbyty Gwynedd unwaith y mis. Ym mis Rhagfyr diddanwyd y plant gan John Piper - pypedwr o Sir Gaer. Dyma luniau o'r plant yng nghwmni y pypedwr. Roedd yn eli i'r galon gweld wynebau'r plant a'u chwerthin iach er gwaethaf eu salwch.

Braf yw gwybod bod eich arian yn cael ei werthfawrogi mewn amryw ffyrdd er lles y cleifion.

Ar Ebrill 29 cynhelir Arwerthiant Cist Car yn y Maes Parcio (gyferbyn â'r Swyddfa Bost) yn Ysbyty Gwynedd - cyfle ardderchog i chwi gael gwared o eitemau wedi'r 'Spring Clîn'! Yna mae Bore Coffi yn Neuadd Talgai yn Llandegai ar 2 Mai o 10 - 12 dydd — dowch yn llu!

Rhai o'r Plant yn yr ysbyty yn cael eu diddanu gan John Piper

Mozambique

Ein llorio gan luniau lloeren —
o gri
O groth gwlad mewn angen;
Ni ddaeth braw y baw i ben
O gydio mam o'r goeden.

R.L.J.

Yr hen ysgol ym Mrynrefail wedi diflanu'n llwyr.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr wyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Yn yr ardd!
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

ANGEN CODI CLODDIAU
O UNRHYW FATH
A FFENSIO?
Cysylltwch ag
R. E. PRITCHARD
PARC, CARNEDDI, BETHESDA
(01248) 601216
WALIO
A
FFENSIO

NEWYDDION O YSGOL BRYNREFAIL

Diwrnod di-fwg

Ar yr wythfed o Fawrth trefnwyd cynhadledd diwrnod di-fwg i ddisgyblion blwyddyn 7 gan ddosbarth Sgiliau Bywyd blwyddyn 10. Bu Elouise Griffith, Cefyn Davies, Samantha Roberts, Graeme Williams a Barry Roberts, gyda help Mrs Linda Hughes, yn brysur iawn yn trefnu'r gweithgareddau.

Cafwyd Twnel Cydwybod, Dramâu o'r corff sy'n cael ei heffeithio gan fwg a chwis i asesu gwybodaeth am ysmygu.

Wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau gwobrwywyd un o bob dosbarth a ddaeth yn fuddugol yn y cwis gyda thocyn llyfr. Y buddugwyr oedd: 7S Samantha; 7E Lorna; 7i Jason; 7O Carys; 7N Ryan.

Daeth uned ffilmio Ffeil draw ar y diwrnod a braf oedd gweld y disgyblion ar y teledu y noson honno ar ddau achlysur - rhaglen Ffeil a hefyd Newyddion S4C.

Diwrnod llwyddiannus iawn wedi ei drefnu gan ddisgyblion i ddisgyblion fengach.

Graeme a Smanatha.

Elouise, Cefyn a Barry.

Ymweld â Ffrainc

Ar Ebrill 13 bydd 42 o ddisgyblion ynghyd â phedwar o athrawon, Madame Sylvie Gartau, Mr Elfyn Roberts, Mr Dylan Parry a Mrs Megan Ellis Davies yn cychwyn ar eu taith.

Y stop cyntaf fydd Paris, y brif ddinas ble bydd cyfle i flasu naws y ddinas arbennig yma a chael cyfle i fynd ar y Bateau Mouche ar yr Afon Seine.

Yna ymlaen i Normandi am 5 diwrnod a chael aros mewn Chateau wrth ymyl Caen.

Bydd cyfle i ymweld â'r Tapestri Bayeux, a'r traethau lle digwyddodd y glanio D-Day yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac hefyd y ffatri ac amgueddfa Camembert - y caws enwog. Cyfle i flasu'r caws a'r athrawon flasu'r Calvados a'r seidr enwog o Normandi.

Bydd hwyl wrth hwylio tywod a siopa yn y farchnad leol. Ond nid hwyl i gyd, bydd y plant yn treulio dau fore yn cyfweld pobl leol (yn Ffrangeg) ac yna yn defnyddio'r wybodaeth i wneud gwaith ieithyddol ar y cyfrifiadur. Trip o fri, wedi ei drefnu'n ofalus gan athrawon yr AdranFfrangeg.

Erychwn ymlaen am luniau a hanesion gan y plant y mis nesaf.

Ymweliad Bardd a Chanwr

Ar brynhawn dydd Gwener, Mawrth 24 treuliodd Set 1, blwyddyn 10 Cymraeg y prynhawn yn Llyfrgell yr ysgol yng nghwmni Twm Morys, y bardd a'r canwr. Bwriad yr ymweliad oedd ceisio cael y disgyblion i ysgrifennu cynghanedd. Cafodd y dosbarth lawer o hwyl wrth ymlafnio â'r grefft ac erbyn diwedd y prynhawn llwyddodd pob un i lunio llinell o gynghanedd lusg a sain. Diolch yn fawr i Twm Morys am brynhawn addysgiadol a hwyliog!

Tîm Hoci dan 14

Y mae tîm hoci o dan 14 Ysgol Brynrefail wedi bod yn chwarae yn arbennig o dda y tymor yma.

Aeth y tîm draw i Ysgol Dyffryn Nantlle i gystadlu yn Nhwrnament Ysgolion Gogledd Gwynedd, a chwarae yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Dyffryn Ogwen.

Roedd y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Syr Hugh Owen yn gêm galed ond amddiffynnodd Brynrefail yn dda a'r sgôr ar ddiwedd y gêm oedd 0-0. Aeth y tîm i mewn i'r ail gêm yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle yn hyderus a thrwy ymosod yn effeithiol sgoriwyd pedair gôl, dwy gan Ceri Jones (bl.8), un gan Lisa Williams (bl.8) ac un gan Karen Evans (bl.9).

Er bod y tîm yn dechrau blino erbyn y gêm olaf yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen roedd y genethod yn dal i frwydro. Sgoriodd Rebecca Owen (bl.9), Ceri Jones (bl.8) a Karen Evans (bl.9) gan wneud y sgôr terfynol yn 3-0 i Ysgol Brynrefail.

Aeth y tîm ymlaen i gynrychioli Gogledd Gwynedd yn Nhwrnament Eryri. Roedd y tîm yn chwarae yn dda ond colli 3-0 i Ysgol y Berwyn, Y Bala yn y gêm gyn-derfynol a wnaethant.

Tîm i ymfalchïo ynddo yn wir, daliwch ati genod.

Grŵp Dawnsio Ysgol Brynrefail

Yn ysbryd y tymor mae grŵp dawns blwyddyn saith ac wyth wedi bod yn brysur yn ymarfer ar gyfer 'Noson o Ddawns' yn Theatr Gwynedd.

Cyrhaeddodd y diwrnod mawr ac roedd pawb yn edyrch ymlaen i berfformio ar y llwyfan o flaen cynulleidfa.

Roedd y dawnswyr yn edych yn arbennig o dda yn eu gwisgoedd ac roedd y noson yn llwyddiant mawr.

Bu'r grŵp yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Dawnsio Creadigol, Eisteddfod yr Urdd a daeth y genethod yn gyntaf yng nghystadleuaeth y cylch ac yn ail yn y Sir. Llongyfarchiadau calonog iddynt.

Grŵp Dawnsio Creadigol Ysgol Brynrefail.

Gwyliau i'w Gofio

Yn ystod wythnos hanner tymor Chwefror 19-27 bu 31 o ddisgyblion a 6 o staff Ysgol Brynrefail yn ddigon ffodus i gael mynd i Florida ar ôl ennill cystadleuaeth casglu tocynnau yn y 'Daily Post'.

Bu'n wyliau bythgofiadwy a phawb wedi mwynhau. Dyma sylwadau rhai o'r disgyblion ar eu huchafbwyntiau nhw o'r gwyliau.

Cychwyn ben bore o'r ysgol.

Fflorida - Dosbarth 2000

Rhywbryd, rhywsut, rhywle ar y daith hir o Fflorida yn ôl i Gymru, fe gollon ni ugain. Nid ugain o ddisgyblion, nid ugain doler, nid ugain punt nag ugain pwys yn sicr, ond ugain gradd selsiws.

Wedi wythnos wych yn haul poeth America, beth arall oedd i'n croesawu gartref ond storm o wynt a glaw. Ond nid oedd y storm yn ddigon cryf i chwythu ein hatgofion i ebargofiant. Byddant hwy gyda ni am byth.

Roedd y parciau'n anhygoel, a'r reidiau amrywiol yn *Magic Kingdom, Epcot* ac *MGM* yn ffantastig. Mae'r *Twighlight Zone Tower of Terror* lle roeddech yn cael eich gollwng dri llawr ar ddeg mewn lifft, a'r *Rock'n Rollercoaster* a â o 0mya i 60mya mewn 2.8 eiliad yn aros yn y cof. Cofiadwy oedd yr *Animal Kingdom* lle roeddech yn wirioneddol yn credu eich bod yn niffeithwch Affrica, yng nghanol yr eliffantod, llewod, hippos a'r jiraff oedd yn rhedeg yn rhydd o'ch cwmpas. Ac wrth gwrs, *Blizzard Beach* - y parc dŵr anhygoel gyda'r llithren bron-fertigol uchaf yn y byd a wna i Ganolfan Haul Rhyl ymddangos fel parc chwarae!

Ni wnaf fyth anghofio'r daith arbennig o'r gwesty i *Planet Hollywood* yn Downtown Disney mewn cadwyn o ddeuddeg limousine, nac ychwaith wynebau'r bobl a ddisgwyliai'n eiddgar tu allan i'r bwyty pan welsant y 'sêr' - dros gant ohonom - yn camu allan. Ac yna'r bwyd! Bwyd ymhob man a'r polisi 'bwytwch gymaint ag y gallwch' yn y rhan helaeth ohonynt. Roedd yr ystod bwyd yn arbennig o eang o McDonalds i bryd chwe chwrs yng Nghstell Brenhinol Siderela.

Does yr un gwyliau yn gyflawn heb siopa, ac mae'n rhaid dweud na chawsom ein siomi gan y siopau Americanaidd yng nghanolfan siopa *'Belz'*. Roedd degau ar ddegau o siopau anferthol yno, oll yn gwerthu dillad 'designers' am ffracsiwn prisiau y Deyrnas Unedig. Roedd hyd yn oed y bechgyn (er nad ydynt yn fodlon cyfaddef hynny) wedi mwynhau'r siopa ac wedi bachu bargen neu ddwy.

Roedd popeth a welsom ac a wnaethom yn Fflorida yn anhygoel ac mae'n siŵr na welwn ddim o'r fath eto. Roedd yr arddangosfeydd tân gwyllt a'r sioe goleuadau laser yn anghredadwy yn ogystal â champau gwefreiddiol perfformwyr y *'Cirque de Soleil'*.

Mae'n arbennig o anodd rhoi fy mys ar un diwrnod neu un digwyddiad a oedd yn sefyll allan. Y rheswm syml am hyn oedd y ffaith fod pob diwrnod yn anhygoel. Roedd yn wyliau gwych, heb ei ail, yn anhygoel ac yn fythgofiadwy, ac rwy'n siŵr fod pawb aeth ar y daith yn cytuno fod holl waith caled y casglu, torri a gludo'r miliwn o docynnau wedi talu ar ei ganfed.

Siân Pritchard
Blwyddyn 13

Dyma beth yw gwesty!

Yn y 'Magic Kingdom'.

Uchafbwynt y trip i Florida oedd *Magic Kingdom.* Roedd y naid *'splash mountain'* yn ardderchog ac roedd y llethr olaf yn uchel ofnadwy. Ond y naid orau o *Magic Kingdom* oedd *'space mountain'* - doeddach chi ddim yn gallu gweld dim byd ac roedd yn gyflym iawn. Teimlais yn drist oherwydd roeddwn yn gorfod mynd yn ôl adref ond dwi'n gobeithio ga i fynd yn ôl rhyw bryd eto.

Aaron Jones

Yr atyniad roeddwn i yn hoffi orau oedd y *'Rocking Rollercoaster'* yn *MGM*, oherwydd roedd yn mynd yn sydyn iawn - o 0 i 60 mewn 0.2 eiliad, ac roedd y *'G Force'* yn gryf iawn. Trwy gydol y reid roedd yna fiwsig gan Aerosmith yn dod o'r uchelseinydd oedd yn fy set. Roeddwn wedi mwynhau cymaint roeddwn eisiau mynd arno eto!

Rachel Morris

'Noson y Limos'.

Wythnos i'w chofio

Wedi setlo yn y gwesty 'All-Star-Movies' gwych ac arfer i'r tywydd poeth, bwyd di-stop a cynllun diwrnodau blinedig cyrhaeddodd uchafbwynt yr wythnos i mi. *Blizzard Beach* yw un o barciau dŵr gorau'r byd heb gwestiown ac yno cefais un o'r diwrnodau mwyaf hwylus a chyffrous i mi gael. Cefais y pleser a'r poen o fynd ar y sleid dŵr serth iawn, *Summit Plummit*. Dywedodd y 'Lifeguard' wrthyf bod person yn gallu trafeilio mor gyflym â char ar y sleid yma. Cynhyrfais gyda hyn tan i mi sylwi hnner y ffordd i lawr bod fy gogls yn nofio ym mhoced cefn fy siorts. AAWWW!

Ar ôl bore cymylog yno daeth yr haul allan yn y pnawn. Ar ôl bwrger a chips aethom i chwilio am fwy o sleids ac wedyn cael ymlacio yn yr haul poeth.

Huw Evans

Un o fy hoff bethau y mwynheais fwyaf yn ystod y gwyliau yn Florida oedd cael y cyfle i fynd yn y 'limos' i *Planet Hollywood*. Roedd yn deimlad gwych oherwydd roeddech yn teimlo'n bwysig. Nid dyna oedd fy unig beth gorau oherwydd roedd *Blizzard Beach* hefyd yn dda, ond y peth gorau yn *Blizzard Beach* oedd *Summit Plummit*, sef y sleid mwyaf fertigol yn y byd.

Diolch yn fawr iawn i'r Daily Post am roi gwylisu ardderchog i ni.

Donna Griffiths

Brynteg yn Datblygu

Gyda dyfodiad y gwanwyn i Barc Cartrefi Gwyliau Brynteg, Llanrug, mae'r cwmni ar fin agor y rhan ddiweddaraf o gynllun uchelgeisiol i drawsnewid y parc i fod 'y gorau ym Mhrydain'.

Ar Ebrill 1 agorir Clwb Gwlad a Chanolfan Hamdden newydd a fydd yn cynnig amrywiaeth o fariau, brasserie, cyfleusterau chwaraeon, yn cynnwys campfa, neuadd chwaraeon, snwcer a bowlio deg, ynghyd ag ardal adloniant — y rhain oll yn hwylus dan yr unto. Mae'r ganolfan yn ychwanegiad i'r pwll nofio a chyfleusterau hamdden braf a godwyd eisoes. Gyda chymysgedd o themâu traddodiadol a chyfoes, bydd y ganolfan yn lle delfrydol i ymlacio i'r teulu cyfan.

Meddai James McAllister, y Rheolwr Cyffredinol, 'Ers inni brynu Brynteg, rydym wedi buddsoddi dros £3.5 miliwn yn darparu'r math o gyfleusterau a gysylltir fel arfer â gwestai a chlybiau iechyd o'r safon uchaf. Crëwyd parc i'w fwynhau waeth be fo'r tywydd — lle braf drwy gydol y flwyddyn gron.

'Cafwyd ymateb gwych gan ein cleientiaid i'r newidiadau a wnaethom. Derbyniwyd ymholiadau lu yn dilyn ein hymgyrchoedd marchnata.

'Rydym bellach yn un o brif gyflogwyr twristaidd yr ardal, ac wedi cynyddu nifer ein gweithwyr llawn amser o 13 i 49, ynghyd â staff tymhorol. O'r rhain, daw 87% o Wynedd a Gogledd Cymru. Pryd bynnag y bo modd, fe ddefnyddiwn gontractwyr a defnyddiau lleol.'

Cydnabyddwyd y gwelliannau ym Mrynteg gan y diwydiant ymwelwyr. Mae'r parc yn falch o fod wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth bwysig *Calor Most Improved Park in Wales* ac yn ddiweddar derbyniwyd *Gwobr Arian David Bellamy am Gadwraeth* yn sgil y gwelliannu amgylcheddol.

Medddai James McAllister, 'Gwerthfawrogwn y gwobrau hyn yn fawr. Maent yn dystiolaeth i waith caled holl staff Brynteg dros y 18 mis diwethaf. Canmola ein gwesteion gyfeillgarwch ein staff a'r gwasanaeth rhagorol a roddant i'r cwsmer.

'Ond nid ydym yn llaesu dwylo ym Mrynteg. Ar ôl agor ein Canolfan newydd edrychwn ymlaen at chwarae'r rownd gyntaf ar ein cwrs golff newydd naw twll, par 3, a ddyluniwyd gan arbenigwyr proffesiynol i apelio at ddechreuwyr a golffwyr profiadol fel ei gilydd.

antur WAUNFAWR

GWYL FAI - 2000 Mai 1af
Llun Gwyl Banc 2.00 - 5.00 y pnawn

Agor caffi newydd Blas y Waun
diwrnod o hwyl i'r teulu i gyd

gweithgareddau amgylcheddol,
adloniant, stondinnau a llawer mwy

ANTUR WAUNFAWR

☎ 01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

PRYD I BAWB

Bwffe at bob achlysur

Bwffe blasus o safon ar gyfer

CINIO BUSNES
CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS
TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU

yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni

CERID MACKINNON
(01286) 673190
neu (0374) 925502

Teyrnged

Wedi cryn gystudd bu farw John Owen, Erw Wen, Llanrug a hynny ddiwrnod cyn ei ben-blwydd yn 81 oed. Yn nhŷ capel y Glasgoed y magwyd John, a chafodd y fraint o'i godi'n flaenor yno yn 29 oed. Symud wedyn i Benrhyn Bach a gwasanaethu Capel y Cysegr fel blaenor ffyddlon am sawl blwyddyn. Bu'n drysorydd ac ysgrifennydd y capel yn ei dro. Er colli ei olwg roedd yn meddu ar gof rhyfeddol, a geirfa goeth naturiol. Roedd yn ddyn dewr ar sawl ystyr, ac un oedd yn mynnu cyfrannu. Goleuwyd sawl oedfa gan weddi daer John Owen. Yr oedd rhyw agosatrwydd a diffuantrwydd yn y geiriau.

Dyn y 'ffordd' oedd John. Yr oedd y daith o Benrhyn Bach i'r Cysegr wedi ei mesur i'r cam - beth bynnag y tywydd. Daewth Owie, y ci tywys, a John yn olygfa gyffredin ar y Suliau. Ar wahân i'r ci, roedd John yn ymwybodol hefyd o'r 'llaw oedd yn ei dywys' er nas gwelaf hi. Yn sicr, o nabod John roedd canu'r geiriau 'Rho fy nhraed y fan a fynnwyf' yn ei angladd yn addas iawn. Dyma'r dyn roedd 'ffydd' yn wisg naturiol iddo. Byddai'n plannu'r hadau blodau pob blwyddyn gan wybod y buasai eraill yn elwa o'u dyfod. Byddai'n rhedeg stiwdio yn ei gartref i baratoi tapiau ar gyfer y deillion ac yn sicr cafodd llawer ohonom elwa o'r profiad o'r sgwrs ar noson recordio.

Rwy'n sicr bod y llu oedd yn yr amlosgfa ddiwrnod yr angladd yn uniaethu eu hunain â geiriau teilwng y Parch Dafydd Hughes yn ei deyrnged. Yr oedd parch mawr i John Owen ar sawl lefel.

Yn bersonol, diolchaf iddo am ei arweiniad a'i gefnogaeth sawl tro. Cofiaf ei eiriau a minnau yn poeni am fy anallu i lunio gweddi, 'Paid â phoeni, pan ddaw yr amser, fe ddaw y geiriau.' Fel ardal, tra'n diolch am ei fywyd ymroddedig, anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Catherine, Ann, David a'u teuluoedd.

John Owen

Yn agos drwy'i hir nosau —
bu ei Grist
A bu grym Ei eiriau;
Er mor drist gweld cist yn cau
Hwn a wêl Duw yn olau.

R.L.J.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Rhagor o newyddion Llanberis

Tîm pêl-rwyd Ysgol Sul, Capel Coch, llanberis a ddaeth yn ail yng Nghystadleuaeth Ysgol Sul Arfon

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Cassie Goodman Davies ddiolch am bob neges ac arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Roedd hi a'i diweddar ŵr, Gwilym, ymhlith tenantiaid cyntaf tai Dôl Elidir, dros 60 mlynedd yn ô. Gwerthfawrogodd y cymorth effeithiol a dderbyniodd gan y tîm gwasanaeth gofal yn y cartref am yn agos i ddeunaw mis. Roedd ym Mhlas Pengwaith ers y llynedd, lle y cafodd groeso a gofal cariadus. Yno y dathlodd ei phen-blwydd yn 89 mlwydd oed.

Diolch i'r nyrsus cymuned a meddygon a staff y Feddygfa, Llanberis. Dros bythefnos ei gwaeledd yn Ysbyty Gwynedd cafodd sylw gofalus staff ward Hebog. Bu ei hangladd ddydd Iau, Mawrth 9 gyda gwsanaeth yng Nghapel Coch dan arweiniad y Parch John Pritchard a'r Parch Eirian Rees a Mr Gareth Jones wrth yr organ, ac yna ym mynwent Nant Peris.

Diolch hefyd am y cyfraniadau yn rhoddion at Blas Pengwaith.

Wythnos Hanner pris i'r Cyhoedd yn Atyniadau Llanberis
Ebrill 8 - 14

Mae'r atyniadau canlynol wedi trefnu i breswylwyr yr ardal i fynd ar, neu o amgylch, eu hatyniadau am hanner pris yn ystod yr wythnos Ebrill 8 - Ebrill 14.

Rheilffordd y Llyn
Mynydd Gwefru
Parc Gwledig Padarn
Amgueddfa Ysbyty'r Chwarel
Amgueddfa Lechi
Rheilffordd yr Wyddfa
Canolfan Coed Cwmderwen

— dowch yn llu i'r atyniadau ac i bentref Llanberis.

Annwyl Olygydd,

Yr Hawl i Grwydro

(Right to Roam)

'Y sawl a fu a ŵyr y fan', meddai'r hen ddihareb Gymreig. Er hynny, sylwaf o ddarllen llythyr Gwyn Jones (rhifyn mis Mawrth) ei fod yn cael trafferth i dderbyn fy sylwadau yn yr erthygl a ymddangosodd yn y rhifyn blaenorol.

Sylwaf hefyd ei fod yn camddehongli rhai o'm sylwadau. Boed hyn yn fwriadol ai peidio, mae yn destun pryder. Er enghraifft, mae Gwyn Jones yn dweud mai ffolineb hollol fuasai rhwystro hawl i bobl ddod i gerdded y mynyddoedd a'r llwybrau? Rwyf wedi parchu hawliau y cyhoedd erioed ac ar sail yr egwyddor honno y tybiais y byddai'r cyhoedd yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a'r cyfle i dalu'r pwyth yn ôl, oherwydd ni allaf dderbyn mai dymuniad y genedl yw cael eu dylanwadu gan ddwy fenyw estron, dwy sydd wedi llwyddo i argyhoeddi'r Llywodraeth mai cyfiawn weithred fyddai lladrata eiddo'r bugeiliaid trwy'r drws cefn, ac yna ei ddosbarthu i bobl y byd. Agwedd gomiwnyddol y Llafur newydd mae'n debyg.

'Fel Dafydd Morris,' meddai Gwyn Jones, 'roeddem yn cael cŵn o'r pentref yn ogystal â chŵn ymwelwyr,' mae hyn eto yn gamarweiniol, oherwydd cŵn yr ymwelwyr yn unig y cyfeiriais atynt yn yr erthygl. Mae Gwyn Jones, fel llawer o bobl, wedi ei gyflyru i feddwl mai estroniaid sydd yn cynnal y ffermwr. Hoffwn wybod i gynnal pwy mae treth incwm y ffermwyr wedi mynd dros y blynyddoedd. Gallaf ddychmygu fod cyfran o'r arian wedi ei ddefnyddio at adeiladu llongau ac awyrennau; er hynny, talu drachefn fydd raid am eu gwasanaeth. Pan ar fy ymweliad â Brwsel beth amser yn ôl, daeth yn hysbys mai dim ond 35% o oedolion Ewrop oedd yn cynhyrchu, felly mae 65% yn ddibynol ar y lleiafrif am eu cynhaliaeth. Byddai'n hawdd iawn profi fel mae pawb ym Mhrydain yn derbyn cymhorthdal, unai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae'r hunangyflogedig, yn enwedig ffermwyr yn talu trethi afresymol ar y petrol a'r disel macnt yn ei ddefnyddio heb obaith pasio'r gost ymlaen i'r cwsmeriaid fel mae'r cyfryw yn ei wneud. Mae'r tabl canlynol yn dangos mai £26.25 oedd gwerth oen 15 kilo i'r ffermwr yn 1998; erbyn 1999 roedd y pris wedi gostwng drachefn i oddeutu £20. Gobeithio fod hyn yn egluro'n llawn beth mae cymhorthdal anuniongyrchol yn ei olygu, oherwydd pe byddai'r ffermwyr yn derbyn cyfran deg o'r cyfanswm yn y tabl, fyddai dim angen cymorthdaliadau ar y ffermwyr, ond sylwch pwy sydd yn elwa mewn gwirionedd.

Mae Gwyn Jones yn mynd ymlaen i ddweud fel mae ffermio yn mynd i lawr, ac yn awgrymu fel y byddai'n well i ffermwyr yr Ucheldir fanteisio ar y cyfle masnachol a ddaw hefo'r hawl i grwydro. Gan fy mod wedi cymryd diddordeb arbennig yn achos yr Ucheldir a'r bugeiliaid ers dechrau yr wythdegau, gallaf brofi i Gwyn Jones fel mae ffermio'r Ucheldir wedi ei redeg i lawr yn fwriadol o sawl cyfeiriad. Efallai mai gwir ystyr y polisi yw i Seisnigeiddio'r byd, oherwydd mae yna fwy nag un ffordd o gael Wil i'w wely.

Gallaf ddweud gyda'm llaw ar fy nghalon y byddai'r Llywodraeth wedi bod yn fwy caredig tuag at y bugeiliaid a Chefn Gwlad pe byddai Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cael cymorth byddin i'n gwaredu, oherwydd mai cynnig cynllun fel cynllun Tir Gofal i rai, a dim i eraill, yn gyfystyr â gweithredu'n filwrol ond yn llawer mwy creulon.

Er gwybodaeth, dydd Sadwrn Mawrth 11 mynychais gyfarfod ym Mlaenau Ffestiniog a oedd yn ymwneud â thwristiaeth. Ceisiais egfluro i'r rhai oedd yn bresennol fod y bugeiliaid wedi talu am y tiroedd gyda'r bwriad o ffermio, a bod cymysgu pobl a defaid yn gyfystyr â chymysgu dŵr ac olew, ond yr ymateb a gefais gan Swyddog ar ran y Bwrdd Croeso oedd ei fod o wedi dod allan o'r Coleg ac wedi gorfod mynd i Loegr i weithio, am y rheswm nad oedd swydd iddo yng Nghymru, a pha mor falch oedd o'r cyfle i ddod yn ei ôl i Gymru. Meddyliais wrthyf fy hun sawl Cymro gwerth ei halen oedd wedi dioddef yn dawel a thlawd i ddisgwyl am swydd yn y wlad yr oedd yn ei garu, ond dyna siom mae'n debyg, pan aeth y swydd i'r sawl oedd yn caru cyfoeth.

Siom hefyd i'r bugeiliaid oherwydd os caiff y swyddog ei ffordd ei hun bydd o a'i debyg yn rheoli a dinistrio'r Ucheldir gyda llif ymwelwyr. Bydd yn rhaid i'r bugeiliaid warchod yr amgylchedd a chadwraeth, a dim ond hwy all wneud hynny gyda gonestrwydd oherwydd ar ôl swyddi moethus mae'r gweddill.

Dafydd Morris
Fferm Cefn Coch
Deiniolen
(01286) 870108

Costau ŵyn yn ôl y Consortiwm Mrchnata Prydeinig (BRC)

	Pris (ceiniog/kg)
I'r ffermwr	175
Cost lladd-dy	65
Torri	133
Pacio	85
Prosesu	16
Cludiant	15
Costau depo	10
Siop	40
Costau staff	25
Swyddfeydd	35

Cymharwch y pris i'r ffermwr 175 x 15 = £26.25 am oen 15kilo, gyda'r pris a dalwyd gan wraig y tŷ, sef £5.99 x 15 = £89.95.

Yn 1988 cafodd y ffermwr lai fyth, sef £20.00.

Cwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael.

Bwydlen Bar a Restaurant.

Mae gennym bellach drwydded lawn tŷ tafarn.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Mary Roberts, Ty'n Ffridd ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Llandudno.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mr Dafydd Roberts (Dafydd Arvonia) sydd yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

EGLWYS SANT GABRIEL. Nos Sul, Mawrth 19 cynhaliwyd Cyngerdd Mawl Mawrth, sef cymanfa o Emynau'r Grawys ynghyd â Chôr Eryri dan arweiniad Sian Wakey. Cafwyd eitemau gan Anwen McGuffie, Debbie Hughes a Susan Williams. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad i'r gymanfa gan y Parch Philip Hughes.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau yn Hafan Elan, Llanrug nos Lun, Mawrth 6. Gweinyddwyd Cymun y Grawys gan ein rheithor, y Parch Philip Hughes. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Sandra Birbeck. Yn gofalu am y lluniaeth a'r raffl oedd Mrs Joyce Rawson a Mrs Enid Taylor. Enillwyd y raffl gan Miss Meira Williams. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Kath Jones. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 3.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Dymuna Peter ac Amanda Welsby a'r plant ddiolch i'w teulu a phawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu colled fawr o golli merch a chwaer fach, sef Cadi a hithau ond 5 mis a hanner.

Diolch i drigolion Nant a Llanberis a phentrefi cyfagos am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion sydd yn rhy niferus i'w hateb yn unigol.

Diolch i'r Parch Wynne Roberts, caplan Ysbyty Gwynedd am ei wasanaeth tra yn yr ysbyty ac ar ddiwrnod yr angladd (yn absenoldeb y Parch Philip Hughes), i Susan Williams ar yr organ ac i Mr M. Pritchard a Gwynfor Jones am ofalu am y trefniadau.

Diolch i Mr Eifion Jones, Prifathro Ysgol Brynrefail, i athrawon a disgyblion y chweched dosbarth a ffrindiau David, Stephanie a Nicholas am eu caredigrwydd tuag atynt. Diolch o galon i bawb. Mae'r arian a dderbyniwyd yn mynd at y 'Meningitis Trust'.

CYDYMDEIMLAD. Yr oedd pawb yn yr ardal yn drist o glywed am y brofedigaeth lem a ddaeth i Peter ac Amanda Welsby, 1 Glanrafon ddechrau mis Mawrth. Bu farw eu merch fach Cadi Francesca Welsby ar Fawrth 8 yn bum mis a hanner oed. Cydymdeimlwn yn fawr â Peter ac Amanda, ac â David, Stephanie a Nicholas yn y brofedigaeth gwbl annisgwyl hon.

GYMNASTEG. Llongyfarchiadau i Renee Mullane, Cae Gwyn am basio arholiad gymnasteg ym Mangor. Mae gan Renee ddosbarth gymnasteg ym Mangor erbyn hyn lle mae'n rhoi gwersi i blant.

GOHEBYDD. Ni chafwyd ymateb i'r apêl a wnaed y mis diwethaf am ohebydd pentref yn Nant Peris. Os gallwch helpu rhowch wybod i ni cyn gynted â phosib.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

DIOLCH. Dymuna Mrs Maggie Lewis ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar ei phen-bwydd yn 93. Diolch yn fawr iawn.

DIOLCHIADAU. Dymuna Cledwyn Jones, 4 Hafan Elan ddiolch i berthnasau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed. Diolch yn arbennig i Dilys ac Arthur Jones, Hafan Elan am drefnu gwledd ardderchog yn y Ganolfan. Diolch yn fawr iawn.

PEN-BLWYDD HAPUS. Dathlodd Mrs Sally Thomas, Ffordd yr Orsaf ei phen-blwydd yn 95 oed yn ddiweddar a deallwn ei bod wedi cael parti bach gartref gyda'i theulu a'i ffrindiau. Nid ydych yn mynd yn hŷn o gwbwl Mrs Thomas - llongyfarchiadau mawr i chwi.

COFION at bawb sy'n cwyno adref neu yn yr ysbytai. Brysiwch wella Mrs Jennie May Jones, Hafan Elan, sydd yn aros dros dro gyda'i chwaer Mrs Sally Thomas a'i nith, Rachel.

Croeso gartref i Mrs Jean Pritchard, 8 Gwêl Fynydd. Mae wedi bod yn yr ysbyty am wythnosau ond da yw deall ei bod, erbyn hyn, yn gwella.

MARWOLAETHAU. Mae pentref Llanrug wedi colli sawl un o'i drigolion hŷn dros y gaeaf ac mae hwn yn gyfnod trist iawn i bawb.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Mrs Catherine Owen Erw Wen, Ffordd Glanffynnon, Ann, Dafydd a'u teuluoedd yn eu colled drist. Bu farw Mr John Owen (Penrhyn Bach) wedi gwaeledd hir. Mi fydd colled fawr i'r teulu ac yn chwith mawr peidio ei weld yn cerdded y ffyrdd gyda'i gi tywys ffyddlon.

Hefyd i Wenna, John a'r teulu, Tan-y-coed. Bu farw Mrs Ceinwen Roberts ar Chwefror 27 yn 89 oed. Bydd colled fawr i'r teulu bach yma hefyd yn enwedig gan eu bod wedi rhannu aelwyd ar hyd y blynyddoedd.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd i Dwynwen a Gwen a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli ei mam, sef Mrs Betty Owen, Brynrefail.

Hefyd i Gwenda Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion i'r teulu, yn enwedig ei mam sydd wedi bod yn sâl hefyd. Brysiwch wella.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs J.E. Parry, 21 Hafan Elan ddiolch i bawb am yr holl alwadau ffôn, y llu anrhegion, blodau a chardiau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs Sarah E. Thomas (Sally) Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf ddiolch o galon i'w theulu a'i chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 95 oed yn ddiweddar.

PLAID CYMRU. Bu Cangen Llanrug yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 1 yng Ngwesty'r Faenol, Nant Peris a chafwyd noson ddifyr gyda chinio blasus ac araith arbennig gan y Prifardd Ieuan Wyn. Pwysleisiodd arbenigrwydd Castell Dolbadarn yn hanes Cymru, gan roi darlun byw a diddorol o hanes y gwrthsafiad Cymreig yn y cyfnod ar ôl lladd Llywelyn yng Nghilmeri, nes ildio i luoedd brenin Lloegr yng Nghastell y Bere yn 1283.

Cafodd Ieuan Wyn waith ychwanegol fel beirniad ar gystadleuaeth y Llinell Goll, gyda Megan Williams yn ennill y wobr. Dyma'r limrig, gyda'r llinell fuddugol:

Roedd Dewi yn llwyrymwrthodwr,
Fe gafodd lys-enw 'Y Dyfrwr',
Pe byddai yn westai
'Ma heno, beth ddwedai?
'Mi gymra i beint hefo Pleidiwr!'

Enillwyr raffl y noson oedd Ann Thomas a Paul Rowlinson ac enillwyr y Clwb Cant oedd:
Chwefror: 1. James Jones; 2. Margaret Williams;
Mawrth: 1. Carrie Owen; 2. Gomer Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 nos Fercher, Ebrill 5 yng Nghanolfan Penisarwaun, gyda sgwrs ar Syr William Preece gan y Cynghorydd Charles Jones. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Kenny Griffiths, Pant Tirion ar ei lwyddiant arbennig yng ngornest y Welsh Amateur Boxing Association, pwysau canolig yn yr Avan Lido yn ddiweddar.

Yn arwain i fyny i'r ornest derfynol, trechodd Kenny, Sean Pepperall (y pencampwr am y 3 blynedd ddiwethaf) a bu yn hynod o anlwcus i gael ei guro gan Kevin Ellis o Gaerfyrddin. Pob lwc iti yn y dyfodol.

EISTEDDFOD YR URDD. Llongyfarchiadau i holl aelodau'r Urdd fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch. Daeth y Parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed, y Côr a'r Parti Cerdd Dant i'r brig ynghyd ac Alis Haf, Lois Angharad, Llinos Catrin, Ffion Angharad a Manon a Ffion yn unigolion. Byddant yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mangor ar Ebrill 1af. Dymuniadau gorau iddynt.

CYFARFOOD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD. Dydd Gwener, Mawrth 3 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yng Nghapel Hermon. Yr oedd y neges eleni oddi wrth chwiorydd Indonesia a chafwyd anerchiad gan Mrs Enid Whiteside Thomas. Mrs Mair Jones oedd yr organyddes. Daeth cynrychiolaeth dda o'r eglwysi ynghyd.

DIOLCH. Dymuna Ella Jones a'r teulu, Y Bwthyn ddiolch o galon am bob arwy dd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt gan eu ffrindiau a'u cymdogion yn Llanrug yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen daid annwyl iawn. Diolch o galon am y cardiau a'r rhoddion ariannol tuag at Feddygfa Waunfawr a Llanrug, sef y swm o £328. Diolch yn fawr iawn.

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r aelodau yn Neuadd yr Ysgol Gynradd nos Fawrth, Mawrth 14 ac estynnwyd croeso cynnes i aelodau Cangen Penrhosgarnedd gan y Llywydd, Ann Evans.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Ceridwen Roberts, Tan y Coedm, a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen a chydymdeimlwyd yn ddwys ag Owena a'r teulu. Cydymdeimlwyd hefyd ag Ann Lloyd Griffith yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, Mr John Owen, Erw Wen, Ffordd Glanffynnon. Bu farw tad Gwenda Roberts, Hafle yn ddiweddar hefyd a chdymdeimlwyd yn ddwys â'r teulu.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at y lluniaeth yn yr Eisteddfod Cylch ac i Cerid Mackinnon am baratoi bwyd y beirniaid.

Atgoffir pawb o'r Noson Ffasiwn (Pringles a Ceri a Morus) sydd i'w chynnal yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ar Ebrill 5 am 7 o'r gloch. Dylid dychwelyd y tocynnau raffl i Myfanwy neu Meirwen erbyn y dyddiad yma os gwelwch yn dda.

Noson yng nghwmni Dafydd Roberts a Sian Wheway a gafwyd i ddathlu Gŵyl Ddewi. Bu Dafydd yn sôn am ei gefndir teuluol ac am ddylanwad Nansi Richards arno. Mwynhawyd gwrando arno'n chwarae'r ffliwt a'r delyn deires a rhyfeddwyd at ei dalent. Diddorol oedd clywed am anturiaethau'r grŵp 'Ar Log' ar eu teithiau. Hyfryd oedd gwrando ar lais peraidd Sian a da yw deall ei bod bellach wedi sefydlu Côr Merched yma yn Llanrug.

Diolchodd Bethanne Williams i Dafydd a Sian am noson arbennig o ddiddorol ac ar ran Cangen Penrhosgarnedd fe ddiolchodd Cynthia Owen i aelodau Llanrug am y wledd hyfryd.

Yn y cyfarfod nesaf ar Ebrill 11 bydd Bryngwyn Griffiths yn siarad am ei gasgliad o lestri 'Gaudy Welsh'.

Plant Ysgol Sul Capel y Rhos yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig i ddathlu'r mileniwm.

GORSAF BETROL
ESSO BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

J.M. JONES A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Côr Plant Deiniolen yn y flwyddyn 1930

3 Pentre Helen
Deiniolen
Yn rhifyn mis Mawrth sylwais nad oedd enwau ar lun côr Plant Deiniolen. Felly rhag ofn bod diddordeb:
Rhes Uchaf: Maggie Mary Evans, Megan E. Jones, Gwyneth Ellis, Willie Foulk Jones, Dorothy M. Walker, Jane Evans, J. Eirlys Jones. Yr ail res: Gwyneth Jones (fy chwaer), Enid Thomas, Peggy Hughes, Griff Evans (Rochel) Arweinydd, Morfydd Wiliams, Rhiannon P. Jones, Ceinwen E. Jones.

Tua dechrau'r 1930'au y cafodd y côr ei sefydlu. Amgaeaf dipyn o atgofion.

Credaf mai diben y côr ar y dechrau oedd rhoi cyfle i'r plant gystadlu yn yr Eisteddfodau lleol, a hefyd rhoi cyfle i'r Arweinydd ifanc. Roedd eisoes wedi cael gwersi piano ac yn awyddus iawn i gael arwain côr. Roedd ei fam, Annie Rochel Evans, yn gefnogol iawn iddo. Huw Evans oedd ei dad

Rhoddodd ganiatâd i ni gael ymarfer yn eu cartref. Does dim sôn am y ddau dŷ cyntaf oedd wedi eu gwneud yn un, na gweddill y stryd yn 'Back New Street' erbyn hyn. Stryd Newydd yn unig sydd ar ôl. Chwalwyd hwy i wneud gerddi i'r tai o'u blaenau ers blynyddoedd bellach.

Bu'r côr mewn bri am rai blynyddoedd ac yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfodau'r cylch.

Ar y dechrau, Mr Rowlands (tad yng nghyfraith Gwen Rowlands) Ffordd Deiniol oedd yn ein dysgu, a Raymond (brawd Griff yr arweinydd) oedd yn cyfeilio. Roedd yr ystafell braidd yn fychan a Mr Rowlands yn chwys diferol a byddai yn dweud bob amser 'Dyro dipyn o swing ynddi, Raymond.'

Byddem yn cael hwyl fawr, ond Annie Rochel oedd y bos. Hi oedd yr un i gadw trefn arnom. Byddem yn gwneud ati i fod yno yn gynnar er mwyn i ni gael stori. Stori ysbrydion fyddai ganddi ac wedi troi y 'lamp oil' i lawr, am fwy nag un rheswm mae'n debyg, eisteddem o gylch y tân yn ddistaw.

Gwyddem beth oedd diwedd pob stori. Rhoddai un sgrech fawr a'i dwylo i fyny a ninnau yn barod am y waedd fawr, ond credaf ei bod yn un dda am adrodd stori, ac yn deall plant i'r dim.

Bu farw Griffith Isaac Evans yn ei arddegau cynnar ac fe'i claddwyd ym Mynwent Macpela.

J. Eirlys Williams

PEIDIWCH A GORI AR STORI
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa

Cyngor Cymuned Llanberis

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn 'Angorfa' Llanberis ar nos Iau, Mawrth 16 gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair. Gydag amharodrwydd y derbyniwyd ymddiswyddiad y Cynghorydd Bert Parry, a fu'n gwasanaethu'r gymuned yn ffyddlon am ugain mlynedd.

Derbyniwyd adroddiad y panel a gyfarfu i drafod Problemau Trafnidiaeth a Pharcio ym mhentref Llanberis. Penderfynwyd fod y panel i gyfarfod unwaith yn rhagor gyda chynrychiolydd o Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd, er mwyn gwyntyllu'r syniadau o fewn yr adroddiad.

Trafodwyd y broblem afiach o gŵn yn baeddu ym meysydd chwarae plant ac ar balmentydd a strydoedd y pentref. Gwneir apêl ar i berchnogion cŵn fod yn fwy cyfrifol o'u hanifeiliaid, yn enwedig gan fod iechyd plant ifanc yn y fantol yn y gwahanol feysydd chwarae. Rhoir gwybodaeth i'r awdurdod perthnasol am berchnogion cŵn sy'n fwriadol yn caniatáu i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Mae'r Cyngor hefyd yn gobeithio gwneud trefniadau i'r Warden Cŵn ymweld â'r pentref yn rheolaidd.

Doedd dim gwrthwynebiad i ddau gais cynllunio i weddnewid wyneb Gwesty Padarn Lake ac i godi estyniad i Tan y Ffynnon.

Adroddwyd fod y gwaith o ledu a gwella llwybr ym mynwent Nant Peris eisoes wedi cychwyn. Penderfynwyd hefyd gwneud atgyweiriadau i wal a giât y fynwent i atal defaid rhag mynd i mewn.

Mynegwyd pryder ynglŷn â chyflwr dau lwybr cyhoeddus — yn Nant Peris (rhwng y brifforddd a Phont y Meibion) ac yn Llanberis (rhwng Bron Eryri a Llwyn Celyn). Penderfynwyd galw cyfarfod o Banel yr Amgylchedd er mwyn gwneud trefniadau i gerdded ac archwilio mwyafrif o lwybrau cyhoeddus y plwyf yn ystod misoedd y gwynwyn a'r haf.

Derbyiniwyd llythyr yn cwyno am gyflwr y fainc gyhoeddus gyferbyn â Modurdy'r Wyddfa. Gwnaethpwyd trefniadau i'w hatgyweirio rhag blaen. Gofynnwyd hefyd i'r Cynghorydd Ken Jones wneud arolwg o gyflwr holl feinciau cyhoeddus y pentref erbyn y cyfarfod nesaf.

Trafodwyd problem gynyddol y chwyn 'Japanese Knotweed' yn enwedig ar hyd glannau afon Hwch, a phenderfynwyd gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd am gymorth.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa' nos Iau, Ebrill 20 am 7 o'r gloch.

Dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi yn yr Amgueddfa Lechi

Ym mwyty'r Ffowntan cafwyd teisen gri yn rhad ac am ddim, a chafwyd cyfle dros baned i wrando ar y telynor enwog Dafydd Huw. Teimlid fod yma wir awyrgylch priodol i Ŵyl ein Nawddsant.

Hwyl a Sbri y Trenau Bach

Edrychir ymlaen bob blwyddyn am arddangosfa'r Trenau Bach yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Bob mis Chwefror dangosir casgliad eang o fodelau rheilffyrdd rhwng 24-27 Chwefror. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael gweld y modelau a chael pas ar hyd yr iard ar injan Bagnall, Paul Perryman. Mae Paul yn perthyn i'r 'Brandon & District Model Engineering Society' o Norfolk. Wrth law yr oedd P.C. Tucker o'r Heddlu Trafnidiaeth i gynnig cyngor ynglŷn â'r peryglon sydd wrth chwarae ar a chroesi'r cledrau. Daeth Clwb Rheilffyrdd Wrecsam a phump o fodelau bychain a daeth Andrew Lance o Reilffordd Ffestiniog a model mawr yn cynnwys trên Hornby Dublo. Cafwyd cyfle i brynu neu ychwanegu at fodelau ac offer ar stondin Modelau'r Celt.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang
o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan
D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

Llythyr o'r America

Arvon
Michigan
June 7th 1885

Annwyl Dad a Mam,

Cymeraf yr hamdden bresennol i anfon ychydig eiriau, a thrwy hynny osgoi yr amryfusedd o esgeulusdra, yr hwn ddiffyg sydd yn barod iawn i ddod heibio i mi ar brydiau. Am newyddion i chwi, nid oes gennyf ond ychydig, achos yr wyf fel wedi fy nghau o'u cyrraedd, ond yr ychydig a fyddaf yn ei gael trwy gyfrwng y papur newydd ac ambell i lythyr. Derbynniais air oddiwrth Nain ac yr oeddwn yn falch iawn o hono. Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf ddeall am farwolaethau sydd wedi digwydd yna, a'r rhai hynny yn hen frodorion yr ardal, yn enwedig S. Owens a Elias Grifiths, Weirglodd Ddu. Pa faint yw nifer y marwolaethau, ar ol fy ymadawiad oddiyna erbyn hyn? Y mae y nifer yn lliosog yn Capel Coch, heb son am yr ardal yn gyffredinol. Nid oes braidd yr un wythnos yn myned heibio nad yw y 'Drych' yn cofnodi hanes marwolaeth rhywrai oddiyna.

Wel, yr wyf wedi cyfarfod unwaith etto ag un ag yr wyf wedi derbyn llawer iawn o'ch hanes fel teulu yn Llanberis. Cyrhaeddodd Mary L'Anse erbyn tua 4 o'r gloch nos Fercher, Mai 27th yn hollol lwyddiannus. Ni ddigwyddodd dim yn anghysurus iddi yr holl ffordd o New York i L'Anse, ond cafodd ei thaflu dipyn o fraw a dychryn ar y mor, ond troes pethau allan yn ffafriol iawn wedi hynny trwy nad oedd yn wyntog, neu buasai yn bur ddrwg arnynt. Mae'n debyg eich bod wedi gweled yr hanes, fel nad yw ond afreidiol i mi fyned dros y manylion.

Bum i lawr yn L'Anse wythnos i heddyw ac yforu, a chefais groesaw mawr iawn. Yr wyf wedi cael llawer iawn o hanesion amdanoch chwi a Llanberis ganddi, ac y mae R. Williams wedi holi llawer yn eich cylch chwi a'r hen deulu, sef ei dad a'i fam. Y mae yn dweud yn gadarn iawn ei fod am ddod drosodd yr haf hwn, ond y mae yn anhawdd iawn iddo ddod, achos y mae mewn llawn *busness* gyda'r chwarel. Yr oedd ef a Mrs Williams yn falch iawn o'r *Present* a anfonasoch iddynt, ac yn fy rhybuddio i ddweud wrthych eu bod yn ddiolchgar iawn i chwi. Yr oedd Mary wedi dod a defnydd gwn sidan o'r fath harddaf i Mrs Williams, ac ni welais neb erioed cyn falched. Y mae yn ei ddangos i bawb, a phawb o'r Yankees yma yn gresynu na buasai modd iddynt hwythau gael ei debyg, ond ni chant yn y wlad hon.

Y mae R. Williams yn hynod iawn gyda'r *Greenhorns*, chwedl yntau. Os y daw drosodd yr wyf yn sicr y bydd Nhad wrth ei fodd gyda'g ef. Y mae wedi clywed fod fy nhad yn hanesiwr blaenaf yn Llanberis, a gresyn na buasai yn ysgrifennu ychydig, fel i gadw hen bethau mewn cof. Y mae yn un o'r rhai mwyaf difyrus yn ei gwmpeini, ac yn gallu ei roddi ei hun yn sefyllfa pawb a phob cymdeithas y byddo ynddi.

Y mae yn hynod iawn gyda'r ddwy Fari, chwedl yntau, (Mary ydi enw ei wraig). Y mae ganddo enwau ddigonedd ar y ddwy i'w gwahaniaethu, sef 'Mari Bach a Mari Fawr', Mari Ni a Mari'r Hen Wlad', Mari'r wlad yma a Mari Pennant', Mari L'Anse a Mari'r Llan' etc. Y mae yn edrych yn gartefol iawn. Dim hiraeth etto, meddai hi.

Yr oeddwn yn falch iawn o'r *Prsent* a gefais gan fy Nhad, fe anfonodd y *right thing* oedd arnaf eisiau. Bum yn meddwl am yrru am dano droeon i Utica, achos yr oeddwn wedi ei weled pan yn Wisconsin, ond ni chefais ddarllen dim arno yno. Caf gysur mawr oddiwrtho ar y Suliau dibregeth sydd yma.

Hwyrach y carech gael ychydig o hanes Arvon yna etto gennyf. Am y chwarel nid oes yma rhyw *show* dda o gerrig yn y dyfodol. Buom oll fel chwarelwyr am fis yn tynnu y brig, ac wedi'r cyfan nid oes ond ychydig iawn o gerrig wedi dod i'r golwg, ac os na ddaw yma well golwg nag sydd yn brsennol bydd wedi darfod yma ymhen ychydig flynyddoedd etto. Sais ydyw y prif *Stewart*, a hwnnw nad ydyw yn gwybod dim am chwarel, yn myned i gostau mawrion yma bob blwyddyn fel pe bai yn *stewart* ar y Dinorwig neu'r Penrhyn *Quarries*. Ond druan o hono, nid yw wedi gallu cael ganddi, roddi cymaint a *cigaren* o elw i'r Co. Bu yn talu yn dda flynyddoedd yn ol pan oedd o dan dwylaw yr hen Gymry, sef R. Williams a'i frawd yng nghyfraith John Williams.

Cyflog y *Boss* ydyw $5,000 y flwyddyn, ac yr oedd ganddo *Boss* arall odditano hyd yr wythnos yma, ac yr oedd hwnnw yn cael $3 y dydd, ond y mae yn awr wedi myned i'r Hen Wlad er dechreu yr wythnos, ac am fyned oddiyno i 'Van Dernaids Land' gyda'i frawd, yr hwn sydd yn awr gartref yn Somertsetshore, yn chwilio am chwarelwyr i fynd yno. George Farley yw ei enw. Yr oedd yn fachgen ieuanc *nice* iawn, hefyd.

Y mae yma *Clerk*, ac y mae hwnnw yn cael cyflog uchel iawn, agos cymmaint a'r prif *Boss*, sef $4,500. Dyna i chwi ddynion a'r afael oreu yn eu llaw eu hunain. Nid oes yma ond 12 o chwarelwyr, a thua 40 o labrwyr.

Bum ddydd Gwener ddiwethaf i lawr 4 milldir oddiyma yn lan *Lake Superior*, sef, *Huron Bay* (gwelwch y map) yn llwytho cerrig i'r *boat* neu'r *steamer*. Llwythasom 160 *squares*, dyna y lle ydyw ein Felinheli ni yma. Y mae y *locomotive* yn rhedeg yno, ac y mae yno le hardd iawn, yn llawn coed ym mhob cyfeiriad ar y tir. Wrth ddod i fynny oddiyno gallwn weled cyn belled a'r guddfair y mae Haughton a Hancock yn sefyll arno, sef y lle y mae y *Copper mine* mwyaf yn y byd. (edrychwch ar y map yna a gellwch weled y lle hwnnw i'r *North* dros 2 *Bay* o Arvon yma).

Gresyn garw fod yma le mor goediog. Y mae yma le iach a dymunol gyda glannau y *Lake* yma. Y mae tref L'Anse mewnlle dymunol iawn, yn enwedig ty R. Williams. Y mae yn y lle harddaf o'r dref, sef uwch ei phen ac o'i blaen y mae y *Pier Head* yn rhedeg i'r *Lake*. Nid oes gwaith rhyw chwarter awr i fyned o'r ty i'w ben draw. Y mae lle *nice* arno ar ol diwrnod poeth i fyned ar ei hyd gyda'r nos, achos y mae yr awel yn y nos yn cyfodi yn oeraidd ac iachus oddiar y llyn.

Cefais dau lythyr o Cambria er pan ysgrifennais yna o'r blaen, un oddiwrth Jenima a'r llall oddiwrth John Rowlands. Y maent oll yn iach yno. Yr oedd Jemima yn dweud ei bod am anfon ei *Photo* yna i chwi yr haf hwn. Cefais lythyr hynod iawn o waith John Ellis ganddi, anfonaf gopi o hono i chwi pan y byddaf yn ysgrifennu er mmyn i chwi weled mor wahanol y mae yn siarad yma rhagor yna. Bychan y mae yn ei feddwl ein bod yn gwybod yr holl *concern* onide?

Y mae John P. Jones yn Granville, New York, neu yno yr oedd ddiweddaf, yng nghorff chwech wythnos o'i arhosiad yn yr *East*. Tuag wythnos y mae wedi ei weithio. Cafodd ei droi o 3 o leoedd ac mi glywais ei fod wedi ei droi o Granville etto. Cafodd R. Williams lythyr oddiwrtho yn cwyno yn arw iawn, ac yn edifeiriol iawn na buasai wedi gwrandaw ei gynghorion, sef aros yma, neu fyned i Dakota a gweithio ar ei ffarm gyda'i wraig a'i blant. Ond ni wrandaw ar gynghorion, gofynnai am gynghor ond ni weithredau yn ol y cynghor hwnnw. Biti garw drosto.

Cafodd Mrs Rowlands, gwraig y *Boarding house* yma lythyr oddiwrth hi o Dakota ac yr oedd yn dweud ei bod yn galed iawn arni yno. Ei bwyd braidd a darfod, a dim gobaith am beth o unlle. Yr oedd ef yn cyfaddef a R. Williams ei fod wedi gwario ei arian i gyd. Ai tybed fod William Parry yn gwybod am ei hamgylchiadau?

Aeth Mrs Rowlands yma at bob Cymro oedd yma ac yn L'Anse i hel tipyn o arian i'w h'anfon iddi, a chafodd $20. go dda, onide? Gwnant help mawr iddi mewn angen, ond nis gwn beth a wnant y gauaf dyfodol. Dyna i chwi y gwir yn eu cylch a gallaf ei brofi mewn modd cadarnhaol iawn yn hollol fel y dywedais. Hwyrach eich bod chwi yna yn meddwl fod dyn yn meddu ar ychydig gannoedd o aceri o dir yma yn gyfoethog, o na, y mae yn ofynol iddo wneud rhywbeth arno, *improvements* ar dir sydd yn ei wneud yn werthfawr, chwaith nid yw ei dir yn lawer iawn iddo ei werthu achos y mae yn dir pur sal, caregog iawn, ac nid oes neb yn meindio am dir felly yn y wlad yma. Yn fy myw nis gallaf beidio meddwl am dano. Y mae mewn cyflwr cas iawn.

Wel rhaid ye terfynu gan gofio attoch yna. Cofiwch fi at deulu Plas Coch i gyd. Y cam mwyaf a gafodd Evan oedd ei rwystro i'r wlad yma, mi gredaf. Yr wyf mewn dyled i yrru gair i Thomas a Morris. Cefais *present nice* iawn gan Morris. Y mae yn *matchio* fy *suit* newydd i'r dim.

Terfynaf yn awr gan obeithio y bydd hyn o eiriau eich cael yn iach a chysurus fel fy hunan.

Ydwyf yr eiddoch yn garedig,
Owen W. Rowlands
Arvon, Michigan.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER

PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD ; DAWNS ; GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

★ Cig o ffermydd lleol
★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
★ Partïon rhwng 40 a 400!
★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri nos Lun, Mawrth 13 dan lywyddiaeth Mrs Elinor Williams. Darllenwyd llythyr y mis gan yr ysgrifenyddes, Mrs Pat Jones. Croesawyd gŵr gwadd y noson, sef Mr Dylan Jones, gan y llywydd. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddo yn sôn am ei waith fel paramedic. Paratowyd y baned gan Mrs Carol Houston a Mrs Elinor Williams. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones oedd Mrs Elinor Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Ebrill 17 pryd y disgwylir cynrychiolydd o siop Debenhams, Bangor i roi sesiwn ar goluro.

SAFLE HEN YSGOL BRYNREFAIL. Nos Iau, Mawrth 2 yng Nghapel Brynrefail cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Datblygu Safle Hen Adeilad Ysgol Brynrefail. Yn bresennol roedd swyddogion Adran Gynllunio ac Adran Bensaer y Cyngor Sir. Eglurwyd y cynlluniau ar gyfer dymchwel yr hen adeilad. Dangosodd y Pensaer fodel o adeilad a gweithdai arfaethedig, gan nodi y byddai'r adeilad deulawr newydd yn gorfod cydfynd â'r safle bresennol a chadw rhai nodweddion o'r hen adeilad. Bu cryn drafod ar ddefnydd posib yr unedau newydd a daethpwyd i'r casgliad y byddai'n rhaid i'r gofod oddi mewn i'r adeilad gael ei gynllunio yn ystwyth ar gyfer gofynion yr amrywiol grefftwyr a busnesau bach. Eglurwyd hefyd y byddai'r unedau yn cael eu hysbysebu a'u gosod ar rent i'r tenantiaid. Nid yw'n debygol y bydd yr adeilad newydd yn barod am o leiaf flwyddyn. Y cam nesaf fydd i'r Pensaer ystyried sylwadau'r pwyllgor a'u hymgorffori yn ei gynlluniau i'w trafod ymhellach gyda'r pwyllgor.

Yr wythnos ganlynol caewyd allan y safle a symudodd y gweithwyr a'u peiriannau i mewn i ddymchwel yr adeilad. Wedi'r didoi trefnus a gymerodd tua wythnos o amser, trist o fewn ychydig ddyddiau wedyn oedd gweld yr adeilad a fu unwaith mor hardd yn adfeilion, a hynny ym mlwyddyn dathlu can mlwyddiant ei adeiladu.

COFION. Anfonwn ein cofion at Miss Blodwen E. Owen, 2 Tai Orwig, yr hynaf yn ein mysg. Bu'n rhaid iddi gael archwiliad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ar ôl syrthio yn ei chartref. Rydym yn falch o ddeall ei bod wedi cryfhau erbyn hyn ac na ddioddefodd niwed garw.

O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Mrs Ifanwy Jones, Rhandir sydd gartref wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS BRESBYTERAIDD BRYNREFAIL. Dyma drefn yr oedfaon yn ystod mis Ebrill:
2: Parch S.O. Hughes, Bae Colwyn - Oedfa Bedydd am 10.00;
9: Mr Gwilym Charles Williams, Bae Penryn am 5.30;
16: Parch Oswyn Rees, Bangor am 10.00;
23: SUL Y PASG: Y Parch Harri Parri, Caernarfon. Gweinyddir y Cymun yn ystod yr Oedfa am 10.00;
30: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30.
Bydd cyfarfodydd Cymdeithas y Capel am y flwyddyn 2000 yn dechrau nos Fawrth, Ebrill 11. Y siaradwr gwadd fydd y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd i'r cyfarfod ac i'r cyfarfodydd fydd yn dilyn yn ystod misoedd yr haf a'r hydref.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mrs Laura Williams, Tan y Fron ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar Chwefror 29 - dathliad go arbennig. Gobeithio ichwi fwynhau eich diwrnod a phob dymuniad da, bendith ac iechyd i'r blynyddoedd a ddel.

DAMWAIN. Drwg gennym ddeall fod Kevin Jones, 2 Bro Elidir wedi cael damwain i'w goes wrth chwarae pêl-droed. Da deall ei fod yn gwella yn araf. Gobeithio y bydd yn gallu ail afael yn eil waith ac hefyd yn cael chwarae pêl-droed cyn diwedd y tymor. Brysia wella Kevin. Hefyd da deall fod Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir hithau yn gwella ar ôl cael damwain i'w choes yn y tŷ.

CWRDD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD. Brynhawn Gwener, Mawrth 3 daeth nifer o chwiorydd yr ardal at ei gilydd i'r Ganolfan ar gyfer Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd. Lluniwyd yr oedfa eleni gan Chwiorydd Cristnogol Indonesia, gwlad sydd ar hyn o bryd yn llawn cynnwrf, a llawer o Gristnogion yn cael eu herlid yn ffyrnig, eu cartrefi'n cael eu dinistrio a'u heglwysi wedi eu llosgi i'r llawr. Morfudd Hughes Jones gymerodd ran yr Arweinydd ar chwiorydd eraill oedd â rhannau yn y gwasanaeth oedd Katie Lloyd Hughes, Betty Lloyd Roberts, Karen M Jones, Megan Morris, Elizabeth Jones, Alice Griffith, Betty Roberts, Nellie Wyn Jones, Maggie Jane Jones ac Irene Morris - hi hefyd oedd yn gyfrifol am drefnu'r cyfarfod. Swm y casgliad oedd £17.

TRINIAETH I'W LLYGAID. Da deall fod Mrs Nellie Williams, 29 Rhydfadog yn gwella ar ôl triniaeth i'w llygaid yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella Mrs Williams.

GWIREDDU BREUDDWYD. Ar ôl llawer blwyddyn a llawer o ymdrin â siarad am y peth, yr ydym wedi cael gwireddu breuddwyd o gael carped ar lawr y Ganolfan. Y mae yn werth ei weld ac y mae yn lle wedi clydhau. Y gresyn mwyaf yw mai breuddwyd y diweddar Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir oedd yn y dechrau, ac na chafodd fyw i weld ei freuddwyd yn cael ei wireddu. Diolch yn fawr i bawb a fu o gymorth i wireddu y freuddwyd yma. Gobeithio yn arw y caiff ei barchu gan nad carped rhad ydyw.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Daeth tymor y Gymdeithas i ben ar Fawrth 2 hefo Cinio Gŵyl Dewi yn y Marquis yn Llanfairpwll. Cafwyd cinio blasus a digon ohono, ond yr uchafbwynt oedd cael mynd i Pringles am ryw awr a hanner i wario. Roedd pawb wedi mwynhau ei hun. Diolch hefyd i Haydn, mab Ieuan Williams, perchennog bysiau Deiniolen am fynd a dod a ni adref yn saff.

LLONGYFARCHIADAU. Yr ydym fel ardal yn falch o lwyddiant Iwan Jones, 5 Bro Elidir, sydd yn fyfyriwr yn y coleg ym Mangor ac a sicrhaodd fuddugoliaeth drwy fod yn aelod o'r tîm a enillodd o 2-1 yn erbyn Coleg Llandrillo, a thrwy hynny fu fydd ef a'r tîm, yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Colegau Prydain 2000 yn Blackpool. Da iawn Iwan, a phob llwyddiant iti i'r dyfodol.

DIOLCH. Dymuna Mrs Laura Williams, Tan y Fron ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Pafiliwn Y Rhyl
Nos Sadwrn Ebrill 15ed 7:30
Idris Charles yn cyflwyno...
Y GORAU O'R DDAU FYD
DAFYDD IWAN
a'r band
a TIMOTHY EVANS
gyda
Lynda Healy
Côr Dyffryn Peris
Annette Bryn Parry
Tocynnau £6.50 Gostyngiadau £5.50 FFoniwch 01745 33 00 00

CO-OP LLANRUG
* Bydd y siop yn agor tan 7pm bob Nos FAWRTH a Nos IAU o 4 Ebrill
* Mae defnyddiau garddio - grobags, gwrtaith etc mewn stoc.
bwyd a nwyddau o safon holl anghenion y ty yn lleol
Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Atgofion am Siopau'r Ardal

Robert Williams
Llain Gwta, Llanrug

Hen Ddihareb! 'Gwell llathen o gowntar nag acer o dir.'

Pe trafodid y datganiad uchod fe awn i dir economeg a deddfau galw a chyflenwad a rhag mynd i ddyfroedd dyfnion, ni fentraf ymhelaethu.

Yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd gellid rhestru siopau'r ardal yn ddwy garfan. Cyflenwi angen yr ardal am nwyddau parod oedd amcan yr amryw fusnesau a sefydlwyd ond yr oedd rhai siopau bach a gedwid mewn cegin neu barlwr ffrynt yn help i anffodusion oedd heb fywoliaeth amgenach.

Fy nghof cyntaf o fynd i siopa oedd yn grwt dwyflwydd oed ar 'sgwyddau Wil, fy mrawd, oedd gryn ddeng mlynedd yn hŷn na mi. Rhoddai 'gorn bwch' i mi drwy fy nghario ar ei 'sgwyddau â'm coesau yn ei geseiliau. Roedd Wil yn awyddus i ddangos ei frawd bach i Gwladys yn Siop John Lloyd, Bron Hafod yn y Fodlas, Ceunant.

Canai cloch fach erfyniol ar y siopwraig wrth agor y drws a Gwladys â'i gwên sglein tu ôl i sbectol ddisglair, yn sgwrsio efo mi. Edrychwn o gwmpas y silffoedd llawn o bob math o bacedi a photeli lliwgar, pan ofynnodd i mi, 'Be' gymri di, Bob, bisgets ynte da-da?' A minnau yn ddigon hen ffasiwn yn methu maddau i'r cynnig yn dweud yn ôl hir gysidro 'Bisgets a da-da.'

Dyna, yn ôl yr hanes, fy ymweliad cyntaf â siop yn y wlad.

Roedd y siop yma ar ben y gelltydd wrth fynd i fyny i'r Ceunant. Deallaf mai John Hughes, Pantycoed a agorodd siop ym Mron Hafod gan osod ei ferch Mary Ann i ofalu amdani. Ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd cysylltiad agos â Thanycoed gan mai Eglwys y Ceunant oedd cartref ysbrydol y Methodistiaid o'r Bryngwyn i fyny. Bu Siop Hafod yn cyflenwi anghenion beunyddiol ardal y Ceunant tan ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Bu cryn dramwyo y ffordd hon ers yr oesoedd cynnar o Fangor i Feddgelert ac felly yn gyfle am fusnes teithwyr blin.

Ar ôl teulu John Lloyd daeth Sais o'r enw Allen a'i wraig i'w chadw yn yr ugeiniau. Mae'n wir y gelid prynu llawer o'r nwyddau yn rhatach yn y Dre' ond mae'n rhaid talu am gyfleusterau yn y fan a'r lle.

Wrth droed y gelltydd roedd siop a iard lo Lewis Roberts yn Minafon, Tanycoed. Yno gallech brynu amrywiaeth o nwyddau siop wledig, o fara i wig lamp neu o debot i lestr golch. Cofiaf, yn laslanc, gael fy anfon i nôl llestr golch gan fy mam ond roedd swildod yn fy llethu wrth feddwl am ofyn am y fath declyn i Mrs Jane Roberts. Gorfu i mi gael nodyn sgrifenedig ganddi cyn yr awn. Dyna hwyl gafodd y wraig wrth weld y nodyn a gofalodd ei lapio mewn papur i arbed fy ngwrid.

Roedd glo i'w gael yn yr iard gefn a bum droeon yn cludo chwarter cant ohono ar fy nghefn am gryn filltir pan oedd yn brin. Pan ddaeth y lori lo a'r bws i gludo teithwyr i'r dre' daeth y pwmp petrol cyntaf i Danycoed. Mae'r hen bwmp Pratts yno o hyd yn gofeb i'r pryd y mesurid pob galwyn yn ofalus fel corddwr yr hen oes. Saif y sein o ffynnon sech.

Ganllath yn nes i'r Bryngwyn roedd Siop Pantycoed a gedwid yn wreiddiol gan John Hughes a'i deulu. Adwaenid ef fel 'Yr Hen Siopwr' a bu'n brif symudydd gyda'r Achos yn Eglwys y Ceunant ac yn sefydlydd yr achos yn Nhanycoed. Yn llofft y Warws y cynhelid yr Ysgol Sul a fu'n gnewyllyn i'r achos yno.

Cyflenwai Siop Pantycoed amrywiaeth o nwyddau o 'râs i hoelion clocsiau' fel dywed yr hen air. Ar wahân i'r anghenion beunyddiol gellid prynu blawdiau a bwyd anifeiliaid ffermydd o'r Warws gerllaw a'u cludo gyda char a cheffyl yn wythnosol.

Fel y soniwyd eisoes yn llofft y warws y cynhelid cyfarfodydd yr Ysgol Sul a'r Band O'Hope dirwestol ar noson waith, hyd nes adeiladwyd y festri trwy ymdrechion gwirfoddol yn 1898.

Cofiaf fy mam yn son am ymlwybro i fyny'r grisiau i'r llofft ar noson waith, gan mai golau pŵl lamp baraffin oleuai'r ffordd rhwng y sachau siwgr, cyrens, blawd ac ati, roedd temtasiwn i blant helpu eu hunain i'r siwgr. Cafodd un bachgen brofiad go chwerw pan ddygodd ddyrnaid o soda golchi i'w geg yn lle'r siwgr fel y tybiai.

Bu bywyd ardal Tanycoed yn troi o gylch y siop a'r Capel am ddarn da o oes a diddorol yw cofio y cymeriadau a ddôi yno ar eu sgawt. Alis Jones, Maesgerddi, cymeriad unigryw, yn gofyn i Tom Hughes, y mab, a oedd ganddo debotiau oedd yn powlio yn o dda. 'Oes,' meddai yntau, 'ond eu bod nhw ar ben y silff uchaf.' 'Ga i weld un yn powlio?' holai. 'Wel, cei,' meddai yntau gan nôl ysgol i'w cyrraedd. Wedi carfangio i'w gael a'i lenwi â dŵr i'w arddangos, meddai Alis. 'Dyna fi'n gwbod lle i ddŵad pan fydda i eisio tebot!'

Ar nos Wener dôi Marged y Garth a'i basgedaid fawr o wyau a menyn i'w ffeirio am nwyddau sych. Un go dawedog oedd Margiad; dim ond rhyw 'Ia' 'Ydi' ac 'Oes' yn ôl y galw yn ymateb i bob ymholiad. Gwisgai yn ôl yr hen drefn; het fawr cantel lydan â'i gwallt yn gocyn tynn tu ôl i'w gwegil; cot o frethyn cartref laes amdani a belt lledr yn dynn am ei chanol. Cerddai ar bob tywydd ar hyd y llwybrau o'r Garth i Danycoed, yn drymlwythog o'i chynnyrch cartref ac ysgafnach o nwyddau cyfnewid ar y daith yn ôl.

parhad yn y rhifyn nesaf.

Damwain Bethel



Alun Roberts, gyrrwr y lori, Maggie Pen y Bryn;

Wrth ddarllen hanes damwain Bethel yn yr Eco, sylweddolodd Alun Roberts, Caer Moel, Llanwnda ei fod yn cofio'r drychineb a bod ganddo lun o'r lori a fu yn y ddamwain yn 1926. Roedd yn adnabod y ddau ŵr a laddwyd gan eu bod yn dod i'w gartref bob wythnos i Ben y Bryn, Fachwen. Cofiai fod Mr Thomas Williams yn arbennig o glên, a byddai ef a'i was ac weithiau ddreifar arall, yn cael paned a sgwrs yn ei gartref.

Dyma a ddywed: 'Teiars solet oedd ar y lori "Pratts", a chan nad oedd gwydrau ar yr ochrau uwchben y drysau, roedd yn oer iawn yn y gaeaf. Ar y drws roedd y geiriau, "American Oil Co., Ltd.," ac ar yr ochr roedd hysbyseb yn dweud fod y "North Pole Expedition" wedi defnyddio petrol y cwmni. Ar gefn y lori yn y canol roedd tanc mawr a thap ynddo i drosglwyddo'r paraffin i Siop Williams, Fachwen ac i Mrs Rowlands y Post. Roedd mynd mawr ar y paraffin gan fod pawb yn defnyddio lampau olew yr adeg honno.

O gwmpas y tanc mawr roedd caniau petrol dau alwyn. Costiai'r rhain ddeuswllt - mwy na'r petrol oedd ynddynt, ac roedd y pris a'r enw Pratts yn ymddangos yn y metel. Byddai'r caniau perol llawn yn cael eu gadael ar gyfer faniau cig fy mrodyr, Ioan a Tom, a'r caniau gwag yn mynd yn ôl. Roedd dau fath o betrol ami, grâdd un a grâdd tri.'

Yn rhyfedd iawn, roedd Mr Pentir-Wiliams, y Crwner, y sonir amdano yn yr adroddiad o'r Herald Cymraeg, yn perthyn i Alun Roberts. Mae ei ferch, Euronwy Pentir-Williams, sydd yn ei nawdegau erbyn hyn, yn byw yng nghartref Sant Teilo ym Methel ar hyn o bryd. Bu Alun Roberts yn byw ym Mryn Madog, Brynrefail am flynyddoedd cyn symud i Lanwnda.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion Anifeiliaid anwes a physgod. Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio cŵn a chathod o bob math gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Parhad o newyddion Bethel

Aelodau o Adran yr Urdd Bethel efo'r darian i'r Adran efo mwyaf o farciau yng Nghylch Arfon 2000.

CARTREF PRESWYL ST TEILO. Mwynhaodd rhai o'r preswylwyr y cyfle i ddathlu Gŵyl Dewi yn yr ysgol yng nghwmni'r plant a'r athrawon gyda chyngerdd a the bach i ddilyn. Dymuna'r rhai fu yno ddiolch i'r prifathro, athrawon a'r plant am eu croeso.

URDD. Mwynhaodd Adran Bentref Bethel lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd dydd Sadwrn, Mawrth 11. Ar ddiwedd diwrnod prysur iawn o gystadlu Adran Bentref Bethel enillodd y darian am gael y pwyntiau uchaf yn yr adrannau pentref. Mawr yw ein diolch i'r holl hyfforddwyr a'r plant am eu gwaith caled. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran a daeth y canlynol yn fuddugol: llefaru dan 8 oed - 3ydd Geraint Bryn. Canu dan 8 - 2il Geraint Bryn, 3ydd Catrin Jones. Cerdd dant dan 8 - 2il Catrin Jones, 3ydd Greta Fflur. Parti llefaru - 2il Parti Leah, 3ydd Parti Ifan. Parti cerdd dant - 2il Parti Robin. Parti unsain - 1af Parti Leah. Côr - 1af Côr Lowri. Parti deulais - 2il Parti Berwyn. Unawd pres - 1af Heulwen Ostler. Unawd chwythbrennau - 1af Elan Rhys. Grŵp offerynnol - 1af Hollol Bananas. Ymgom - 1af Y pêl-droedwyr: Aled Gwilym, Dewi Foulkes, Sion Foulkes a Sion Garth, 2il Criw Berwyn: Berwyn Jones, Lowri Vaughan a Ceri Roberts. Unawd Cerdd Dant dan 10 - 3ydd Cai Jones.

Bydd y côr, parti unsain, grŵp offerynnol a'r 2 ymgom yn ogystal â Geraint, Catrin, Heulwen ac Elan yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eistedfod Sir yr Urdd ar Ebrill 1.

Unwaith eto cafodd y dawnswyr lwyddiant, y tro hwn yn yr Eisteddfod Sir. Grŵp dawnsio creadigol - 1af. Grŵp dawnsio disco - 1af Grŵp Sasha: Sasha Williams, Ceri Griffiths, Kelly Cavanagh, Siwan Humphries a Gwenllian Hughes. Dawnsio disgo unigol - 1af Kelly Cavanagh, 2il Ceri Griffiths. Ardderchog wir!

Byddant yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghonwy ar ddiwedd mis Mai.

MATHEMATEG PEN. Nos Fercher, Mawrth 22 cynhaliwyd noson o fathemateg pen i rieni plant yr ysgol. Daeth nifer dda iawn o 'r rhieni i Neuadd yr Ysgol i wrando ar Sian Davies, Athrawes Ymgynghorol Mathemateg ac i ddysgu llawer am gyfrif yn y pen drwy chwarae gemau rhif. Clywyd llawer o chwerthin ar y noson a thipyn go lew o drafod dros baned ar y diwedd. Diolchwyd, i Ms Davies gan y Pennaeth, Mr Teifion Thomas am noson ddifyr a llwyddiannus iawn.

CLWB 200. Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £20: Margaret Williams, Llanddwyn; £10: Jane Elis, Glenydd y Ddôl; £5: Sulwen Thomas, 1 Stad Eryri; Glenys Thomas, Islwyn; Jenkyn M. Griffith, Llwyn Eithin; Lona Jones, 6 Stad Eryri; Margaret Rees, 6 Y Rhos; Richard Parry, 4 Rhes Llan; Olga Davies, 10 Tan-y-cae; Manon Griffith, Stad Eryri.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod mis Mawrth etholwyd yr isod yn swyddogion ar gyfer tymor 2000-2001.

Llywydd: Glenys Griffith; Is-lywydd: Mair Read; Ysgrifennydd: Eirlys Williams; Is-ysgrifennydd: Gwyneth Williams; Trysorydd: Enid Williams; Is-drysorydd: Mary Evans. Aelodau'r pwyllgor: Enid Christie, Bet Owen, Eryl Roberts, Jennifer Roberts, Liz Watkins, Rita Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, Ebrill 12 am 7.30 yn neuadd yr ysgol gynradd pryd y byddwn yn 'Blasu Caws' gyda Hufenfa De Arfon.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Fawrth, Mawrth 22 yn festri'r Cysegr dan lywyddiaeth Mrs Glenys Griffith cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor yng nghwmni Rol Williams, Y Waunfawr. Cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol am hen deuluoedd a thrigolion Cwm Brwynog. Cafwyd golwg ar fywyd llawn a chyfoethog cymdeithas ddiwylliedig ardal sydd bellach wedi di-boblogi yn llwyr.

Diolchodd Mr Goronwy Jones i Mr Williams ar ran y gymdeithas.

Cynhelir y trip a'r swper blynyddol eleni nos Fawrth, Mai 16. Dylai'r aelodau sydd yn dymuno dod ar y trip ac nad ydynt eisoes wedi rhoi eu henwau i Maud neu Nerys wneud hynny mor fuan ag sydd modd.

Kelly Cavanah a Ceri Wyn Griffith — cyntaf ac ail yn y Cylch a'r Sir yn y Dawnsio Disgo Unigol dan 12 oed.

Ymgom y Pêl-droedwyr — cyntaf yn y Cylch.

Hwyl efo'r Mathemateg.

Grŵp Sasha — y grŵp Dawnsio Disgo buddugol yn y Cylch a'r Sir.

Ar Ben Arall y Lein

Tawel iawn fu dechrau'r tymor gyda dim ond rhyw ychydig yn mentro allan, er bod y tywydd yn braf am yr amser o'r flwyddyn. Roedd yn ofnadwy o oer ar y glannau, a mae'n siŵr mai dyna'r rheswm ei bod yn teimlo'n oer a doedd yr hen bysgod ddim eisiau cydweithredu. Un peth calon-ogol yw'r ffaith bod tipyn mwy o *sils* o gwmpas, y rhai a elwir yn *sils y gog*. Rhain yw'r rhai mawr sydd wedi bod yn brin ers blynyddoedd, ond yn '99 fe welwyd gwellhad sylweddol yn eu nifer, a'r flwyddyn yma, wel mae pethau i'w gweld yn gwella eto. Gyda'r gwaith magu eog yn y ddeorfa hefyd rydym yn ffyddiog iawn y cawn weld cynnydd yn y nifer a ddaw i'r rhwydi yn ystod yr haf.

Peth pleserus yw gweld y nifer o bobl ifanc y fro sy'n ymgymeryd â'r enwair - dros hanner cant y tymor diwethaf. Rhain yw ein dyfodol ac i'r perwyl yma rhaid ymdrechcu i godi mwy o ddiddordeb yn y grefft. Mae nifer o'r aelodau yn troi eu hymdrechion i'r cyfeiriad yma a rhaid diolch i Mr J.V. Evans o Gaernarfon sydd yn cyflwyno tarian flynyddol i'r aelod o dan 18 sy'n dal y sgodyn trymaf. Am dymor '99 yr enillydd oedd Iolo Ellis, Bethel gyda sewin 2½ pwys o Crawia ar y Seiont.

Yn ogystal â hyn mae'r clwb wedi derbyn cymorth ariannol gan Gist Gymunedol Gwynedd (Sportlot) at drefnu hyfforddi pysgota. Cynhelir sesiynau un noson bob wythnos am 10 wythnos dan ofal yr hyfforddwr proffesioynol, Derek Turner o Fodelwyddan. Bydd y sesiwn gyntaf tua chanol Mai a chyhoeddir yr union ddyddiad mis nesaf yng nghlwb Rygbi Caernarfon. Wedyn bydd hyfforddiant i'w gael ar y Dywarchen, Padarn, Cwellyn a'r afonydd. Mae croeso cynnes i rai o bob oed fydd eisiau talu. Bydd offer ar gael ar y nosweithiau. Beth am i rai o'r merched roi cynnig arni.

Bydd cystadlaethau ar Padarn a Cwellyn yn ail ddechrau eleni hefyd. Mae Mr Trefor Jones o Nebo yn gwneud y trefniadau. Rhaid peidio anghofio bod cystadleuaeth i'r bobl ifanc ar y Dywarchen am 1 o'r gloch brynhawn Sadwrn, Ebrill 1, ar chystadleuaeth yr oedolion ar yr un amser dydd Sul, Ebrill 2. Bydd stoc dda o frithyll brown wedi eu stocio erbyn hynny. Cyfle am fagiad cyn i'r llyn agor yn gyffredinol ar Ebrill 3.

Un dyddiad arall i'r dyddiadur: diwedd Medi bydd arwerthiant celfi sgota yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. Os oes rhywun eisiau gwerthu stwff sgota cysylltwch ag unrhyw un o'r aelodau, mae cryn ddiddordeb yn y noson yma a bwriedir cynnal noson debyg pob dwy flynedd, gyda'r lleoliad yn newid drwy'r ardal. Mae un noson lwyddiannus wedi bod yng Nghaernarfon ychydig flynyddoedd yn ôl felly y tro nesaf tro Pen-y-groes fydd hi.

Fel y mae rhai sy'n mynychu Penllyn yn gwybod yn barod mae'r gwaith o dacluso a chodi graddfa ein heiddo yn mynd ymlaen. Mae'r clawdd cerrig yn y broses o gael ei adeiladu, gwaith arall yw codi ffens i adnewyddu cynefin glannau Afon Peris a'r Afr yn Nant Peris. Bydd hyn yn hwb mawr i fagwrfa'r eog a'r brithyll bach.

Rwy'n gweld hefyd fod hawl cynllunio wedi ei roi i adeiladu jeti ar lan Llyn Padarn yn Llanberis i alluogi fferi i redeg o ochr y pentre i'r Gilfach Ddu. Mae'r jeti o flaen ble mae'r hogia yn angori am y torgoch. Bydd rhaid gweld os bydd y cwch yma yn amharu ar y sgota, ond mae'n amlwg fod punt estron yn fwy pwysig na hen draddodiadau'r ardal a dymuniad ei phobl. Rhaid canmol Cyngor Cymuned Llanberis am sefyll yn erbyn hyn i gyd, ond roedd y rhai a wnaeth y penderfyniad terfynol yng Nghaernarfon yn gwybod yn well yn ôl pob golwg.

Un bach am y torgoch cyn gorffen. Yn nechrau Rhagfyr '99 cariwyd allan yr arbrofion a gynhelir pob dwy flynedd ar y pysgod yma ac mae pethau yn amlwg gwella. Fel y cofiwch, dros y blynyddoedd diwethaf mae pryder wedi bod ynglŷn â maint y torgoch. Arwydd pendant bod rhywbeth mawr o'i le yn ansawdd dŵr y llyn. Mae dros ddeunaw mis ers i beiriant tynnu ffosffates yng ngwaith carthffos Llanberis fod yn gweithio i'w ofynion, a thrwy hyn mae pethau yn araf ddod yn ôl i safon blynyddoedd maith yn ôl. Dyma enghraifft — yn Rhagfyr '97 roedd maint y torgoch i fyny at 530 gram ond yn Rhagfyr '99 roedd y pwysau wedi gostwng i 280gram.

Dyma'r newydd gorau a all unrhyw un â diddordeb yn ein dyfroedd ei gael. Rydym wedi gwneud fideo o'r arbrofion yma ac mae'n ddiddorol iawn i unrhyw un sydd eisiau ei gweld. Rhown bopeth at ei gilydd i'w dangos yng Ngwesty Dolbadarn ar noson yr arwerthiant. Mae Norman Closs Parry hefyd wedi ysgrifennu cyfnod o'i sylwadau ar faint y torgoch ac maent ar gael yn y Naturiaethwr, cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd, Gorffennaf 1997 a Rhagfyr 1999.

H.P.

Llwybrau

Wrth groesi'r hen bont o Fôn i Arfon,
Eryri o 'mlaen, odanaf yr afon;
Ysblander hardd, godidog olygfa,
Ond - y llwybrau coch ar ben yr Wyddfa!

Gwelir ôl traed ar lwybrau y gelyn,
Yn dinistrio Cymru, gwlad y delyn;
Lle mae'r eryr wedi ffoi o Eryri
A chrefft a thraddodiad, a'r ddawn wedi pydru!

Maluriwyd cynefin y defaid a'r ŵyn,
A llwybrau yr estron yn goch rhwng y brwyn;
Gylfinir y mynyddd yn drist iawn ei llef
Wrth godi a disgyn, yn entrych y nef.

Edrychaf ymlaen at stormydd y gaeaf,
A heno ar derfyn dechrau yr haf;
Crawc y gigfran o ben Craig yr Ysfa
A'r eira'n cuddio llwybrau yr Wyddfa.

John V. Morris
Rhianfa, Clwt-y-bont

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

teithiau peris travel

PATAGONIA
10 - 28 Ebrill, 2000
Taith tair wythnos i grŵp o 10
Cyflwyniad i'r daith gan
Hywel Gwynfryn

RHYS MEIRION
yn y 'Pysgotwyr Perl' (Pearl Fishers)
Coliseum, Llundain. Ebrill 15 — 16

24 Gorffennaf — 8 Awst
BRISBANE, AWSTRALIA
yng nghwmni Timothy Evans (Llambed) ac Annette Bryn Parry

STEPS — Manchester Arena — Mai 29

Manylion pellach (01286) 872777

Cig Bethel

OEN CYMREIG LLEOL CYFAN

★

PORC LLEOL

★

GWYLIWCH AM EIN PRISIAU
ARBENNIG AM WŶN LLEOL

Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Ymddiheurwn am beidio â chynnwys newyddion bro Caeathro yn Eco'r Wyddfa mis Mawrth. Nid oedd eich gohebydd lleol ar fai!

DIWEDD CYFNOD. Ar ôl cyfnod o 37 mlynedd ni fydd yr enw 'Atkinson' yn gysylltiedig â Chefn Gof. Symudodd Ptrick a Heulwen Atkinson i'r fferm fel tenantiaid i Stad Glynllifon ym mis Medi 1962 ar ôl iddynt briodi. Ers mawolaeth ei dad bu Shaun yn denant i'r stad ond daeth y denantiaeth i ben ddiwedd mis Mawrth eleni.

FFYNHONNAU DŴR. Faint o ffynhonnau dŵr oedd yng Nghaeathro ers talwm cyn dyfodiad y dŵr 'mains'? Gwyddom am arferiad merched y pentref i gasglu dŵr ar gyfer golchi dillad o waelod y grisiau o dan y bont dros Afon Efail Bach. Mae'r hen fapiau'n dangos 'well' tua hanner y ffordd rhwng Llain Meddygon a Thy'n Gors, yng nghanol y ffordd newydd. Hefyd bu sôn am ffynnon naturiol, Ffynnon Cefn Gof, yng nghanol y gors y tu ôl i 'Eryl Cottage', tafarn y 'Cross Keys' ers talwm. Lle'n union oedd hi?

CROESO i berchnogion newydd Glandwr , Mark a Wendy Williams a'u merch.

CAE CHWARAE. Diolch i gyfrannwyr y Clwb Cant, mae Pwyllgor y Cae Chwarae wedi codi giât newydd i'r cae chwarae a gwella'r ffensys. Fel canlyniad bydd posib cael tractor modern i'r cae ac felly trin y cae yn well. Adeg codi'r giât flaenorol, tua 1975, roedd hi'n ddigon llydan ar gyfer tractorau'r cyfnod. Hefyd bydd posib rheoli pori'r cae yn well a chadw lein y llwybr cyhoeddus mewn cyflwr gwell i gerddwyr.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Mawrth oedd:

1. £40 (95) Selwyn Hughes, 7 Erw Wen; 2. £25 (55) Wendy Thomas, 4 Bryn y Gof; 3. £15 (74) Mark Bee, 5 Tai Glangwna; 4. £5 (57) Richard Myrfyn Roberts, 9 Bryn y Gof.

SÊR Y CAMPAU. Mewn seremoni ym Mhlas Tan y Bwlch gwobrwywyd Jayne Lloyd, Bodawel fel Personoliaeth Chwaraeon Gwynedd y Flwyddyn. Eisoes roedd hi yn sêr y campau yn Arfon.

TORRI COES. Ar ôl iddi hi dorri ei choes ar daith dros y ffin mae Gwenda Jones, Plas Glangwna yn gwella adref.

PEN-BLWYDD. Annodd credu ond dathlodd Megan Roberts, 9 Cefn y Gof ei phen-blwydd yn 60 oed ym mis Mawrth.

GWASANAEHAU'R CAPEL. Disgwylir cynnal y gwasanaethau canlynol yn ystod yr wythnosau nesaf:

2 Ebrill am 11.00 - Ysgol Sul, 2.00 - y Parch Gwyn Erfyl, Caernarfon;
9 Ebrill am 11.00 - Ysgol Sul, Dim Oedfa.
16 Ebrill - Dim Ysgol Sul, 2.00 y Parch Harri Parri, Caernarfon;
23 Ebrill - (Pasg) 11.00 Dosbarthu Wyau Pasg;
30 Ebrill - Dim Ysgol Sul.

Cefnogwch eich eglwys leol. Bydd cyhoeddiad lleol ynglŷn â'r gwasanaeth naill ai ar Sul 23 neu Sul 30.

GWAITH AR Y FFYRDD. Ar ôl disgwyliad hir mae Cyngor Gwynedd wedi torri'r llwyni a oedd yn atal cerddwyr rhjag gweld y traffig cyflym ar y lôn newydd wrth iddynt geisio croesi at y llwybr cyhoeddus o'r Cae Chwarae i'r Llyn Uchaf.

Hefyd mae'r mesurau tawelu traffig wedi cael eu peintio ar wyneb y ffordd yn y pentref. Disgwyliwn i drigolion y pentref a'r cyrion barchu'r uchafswn cyflymdra o 30 m.y.a. a gobeithiwn y bydd pawb arall yn dangos yr un parch tuag at fywydau pobl eraill.

ADREF. Ar ôl seibiant yn Ysbyty Gwynedd mae Mr Ronald Moore adref yn 'Eryl Cottage' ac yn gwella.

WYAU PASG. Diolch i gefnogwyr hael Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae bydd aelodau'r Pwyllgor unwaith eto yn dosbarthu Wyau Pasg i blant oed ysgol gynradd ac iau y pentref a'r cylch. Gofynnir i rieni ddod a'u plant i fynedfa'r Capel am 11 o'r gloch fore Sul y Pasg, 23 Ebrill.

I GOFIO'N ANNWYL AM
JEAN WILLIAMS
19 TAI GLANGWNA

Un annwyl aeth o'n gwyddfod
I'w hirdaith gyda'r wawr,
Nid oes yr un all wrthod
Pan ddaw yr alwad fawr .

Croesawgar a charedig,
Bonheddig trwy ei hoes,
Â'r siriol wên yn aros
Er dioddef poen a loes.

Hiraros a wna hiraeth
Amdani yn ei bro,
Ond fe ddaw gwiw atgofion
Yn ffrwd trwy ddrws y co'.

Rhyw fangre gysegredig
Byth mwy fydd man ei bedd,
Heb ddim ond murmur awel
I dorri ar ei hedd.

Gorffwysed mewn tangnefedd
O sŵn y byd a'i boen,
Yng ngwynfa'r pererinion
Sy'n arddel enw'r Oen.

J. Lewis Jones

Dysgu Dramor

1/9/99. Ma'r wythnosa' diwetha' wedi fflio! Gesh i'm amsar i ffarwelio hefo hannar fy ffrindia' a dw i'n siŵr mod i 'di pacio'r petha' anghywir - mosgito net, pecyn cymorth cynta', tabledi malaria - Nefoedd! I le dw i'n mynd? Dw i'n siŵr mod i'n cerdded i farwolaeth, yn gwahodd Angau i ddod ata i a'm llyncu'n fyw!! Be' ddigwyddodd i fynd dramor a phacio bicini ac eli haul?

Ond dyma fi, ar yr awyren, s'na ddim troi'n ôl. Tydw i'm yn drist. Mae o'n deimlad rhyfadd, newydd ffarwelio â dad, a oedd yn agos iawn i grio, ond dydw i ddim yn drist. Edrych ymlaen achos mae o'n rwbath rydw i wir ishio'i 'neud. Edrych ymlaen i gael bod yn rhan o gymdeithas newydd, i gyfarfod pobl wahanol ac i fyw bywyd trigolion Nepal. Gobeithio y ca' i fy nerbyn yno. Ella na fydda nhw'n licio ein bod ni'n byw hefo nhw, yn teimlo'n bod ni'n bysnesu. O! Dw i'n nyrfys rŵan.

Dw i'n ista hefo Sarah ar yr awyren. Efo hi dw i am fod drwy'r dydd, bob dydd am bedwar mis. Be' os nad ydw i'n cael ymlaen hefo hi? Ella bod ganddi rhyw 'habits' hyll fydd yn codi pwys arna i! Na, tyd Beth, does dim pwynt meddwl fel'na, ti yma i wneud ffrindia newydd, i ddysgu'n wirfoddol mewn ysgol yn Fikkal, Nepal. Felly does gen ti ddewis ond codi dy ben, un anadl ddofn, ac ymdopi hefo fo.

O, mam ...!

Bethan Williams

SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffoniwch (01286) 830609
– TENEUWCH –
SLIM CHWIM MEWN DIM!

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
BANGOR
(01248)
354646

GOFAL DYDD
Teimlo'n unig?
Angen Cwmni?
Dewch atom i Gartref Preswyl
St. Teilo, Bethel
* Gofal Dydd
* Cwmnïaeth a Sgwrs
* Prydau Bwyd Da
* Awyrgylch Gymraeg
Ffôn:
Iola ac Ellis Wyn Jones
(01248) 670353

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN
★ Blodau ar gyfer pob achlysur
★ Dewis da o Lysiau Fferm
★ Wyau *Free Range*
Ar agor saith diwrnod
870605
LLYSIAU AR GYFER PICLO

CEIR ADAM
HURIO PREIFAT YN UNIG
★
LLEOL NEU HIRBELL
★
LLANBERIS
871539

CROESAIR EBRILL



Mae nifer o weithwyr ymysg yr atebion, ac mae i'r saith nad oes cliwiau iddynt eu bylchau bach yn yr Eco.

Ar Draws:

1. Pethau i'w gwisgo ar y gwely? (5)
6. Gall leddfu poen (4)
9. Rhannau ymadrodd yn goleddfu berfau (8)
10. Gwraig o'r radd isaf yn yr offeiriadaeth (8)
13. Ni ellir ei osgoi (10)
15. Ergydion abl? Ar ddydd arbennig (6)
17. Cysylltu â Fiat bach? (3)
18. Cytûn (6)
22. Adar (5)
27. Gylfin neu fochyn o sais (3)
28. Peiriant i fwndelu gwair (6)
31. Darganfod mai peth chwithig yw darllen meddyliau (6)
37. Gwelleifwyr (8)
38. Aloi a ddefnyddir i asio metalau (4)
39. Rhain sy'n profi llwyddiant gyrfa prifysgol (6)
40. Cryfhau (5)

I Lawr:

1. Gall afal Dei fod yn llithrig (7)
2. Deg ar y llanw yn torri coed (5)
3. Arddywediad (9)
4. Ffigurau geometrig didrwch (6)
5. Gwisg y mynach (4)
7. Sicrhau fod rhywbeth wrth gefn allan o gariad noddwr (5)
8. Mathemategwr (9)
11. Mater tew mewn clwyf gwenwynllyd (5)
12. Gall gweithio o gwmpas anober di-ddiwedd ddigalonni (11)
16. Offeryn cerdd, nid annhebyg i gitâr (5)
19. Megan wahanol, gwahanol (5)
20. Mwnci yn lladrata meirch? (3)
21. Y cyntaf yn yr ardd (3)
22. Ers talwm iawn! (3,3,3)
24. Rhai sy'n canu'r ffidil (9)
26. Trwyth wedi ei gymysgu gerllaw (5)
29. Y rhannau o'r peiriant sy'n troi (7)
30. Ymchwydd y môr (6)
32. Gŵr neu wraig neilltuol (5)
34. Y rhai sy'n rhoi saim ar bethau (5)
35. Cefn y gwddf (4)

CROESAIR MAWRTH

Daeth wyth ar hugain o ateb ion i groesair mis Mawrth i law, sef gan Jean Hughes-Jones, Rhiw; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Alice Griffith, Dinorwig; G. Gill, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Elfed Evans, Llanllechid; Hywel Griffiths, Awstralia; Nant Roberts, Llanrug; M.P. Jones, Clynnog; Gwen Davies, De Wirral; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Olwen Owen, Llanberis; E. Eirwen Roberts, Tregarth; Ceridwen Williams, Llanrug; N. Hughes, Cwm-y-glo; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Eluned Jones, Trefor; Mabel Parry, Porthmadog; Catherine A. Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; Jennie Williams, Clynnog; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Chris Roberts, Llanrug; Moreen Lennon, Llanberis a Mrs D.B. Jones, Llanrug.

Ymgais Eluned Jones, 5 Llwyn Aethnen, Trefor, Caernarfon ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 y mis i chi.

Ar ôl cwblhau croesair Ebrill anfonwch at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun LL55 3HE erbyn Ebrill 17.

DYDDIADUR EBRILL

1. Sad Eisteddfod Sir yr Urdd yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor.

3. Llun **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau am 7 o'r gloch.
DEINIOLEN: Cyfarfod Cymdeithas Eglwys Llandinorwig.

5. Mer **YSGOL BRYNREFAIL:** Ocsiwn Addewidion yng Ngwesty'r Fictoria am 7 o'r gloch.
LLANRUG: Merched y Wawr, Noson Ffasiwn yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon am 7 o'r gloch.

6. Iau **DEINIOLEN:** Cyfarfod y Chwiorydd yn Ebeneser am 2 o'r gloch.

8. Sad **LLANBERIS:** Ebrill 8 - 14 Cewch ymweld â rhai o atyniadau'r pentref am hanner pris: Rheilffordd y Llyn, Mynydd Gwefru, Parc Padarn, Amgueddfa'r Ysbyty, Amgueddfa Lechi, Rheilffordd y Wyddfa, Canolfan Goed Cwmderwen.

9. Sul Cymanfa'r Eglwys Fethodistaidd yn Seilo, Tregarth am 2 o'r gloch.
CADEIRLAN BANGOR: Perfformiad o 'Gloddest Bywyd' am 7 o'r gloch.

11. Maw **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Capel gyda'r Parchg Gwynfor Williams.
LLANRUG: Merched y Wawr gyda Bryngwyn Griffiths.

12. Mer **BETHEL:** Merched y Wawr, Noson Blasu Caws am 7.30 o'r gloch.

16. Sul Cymanfa'r Annibynwyr yn Jerusalem Llanberis am 2pm — bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 1.15pm a Phenisarwaun am 1.25.

17. Llun **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched, Sesiwn Coluro.

20. Iau **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwysi — Oedfa Nos Iau Cablyd yn Eglwys Llandinorwig am 7 o'r gloch.

21. Gwen **GWENER:** Oedfa Gymundeb y Groglith yn Capel Coch am 10 y bore.
PENISARWAUN: Cyn-Gymun a Litani yn yr Eglwys am 10.30 y bore.

23. Sul **DEINIOLEN:** Cyfarfod Pregethu yng Nghefnywaun am 10 y bore a 5 yr hwyr.

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

RHODDION

£15: Gomer Davies, Tregarth.

£10: Rhodd gan Ffermwr Tlawd; Teulu y ddiweddar Lil Jones, 2 Y Ddôl, Bethel. Mrs J.E.Parry, 21 Hafan Elan, Llanrug. Mr Cledwyn Jones, 4 Hafan Elan, Llanrug.



£5: Norah O'Brien, Yr Wyddgrug; Graham a Nerys Roberts, Talwrn, Ynys Môn; Teulu'r ddiweddar Mrs Netta Jones, Cynlas, Llanberis; Teulu y diweddar Ernest Roberts, 3 Rhes y Faenol, Llanberis; Mr Hugh Morris, Maes Padarn, Llanberis. Mrs Laura Williams, Tan y Fron, Dinorwig. Mr a Mrs A.R.Parry, "Seibiant" Lôn Ddewi, Caernarfon. Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Llanrug. Haf Thomas, Buarthau, Llanrug. Mr a Mrs Hughes, 3 Bryn Corlan, Waunfawr.

£3: Derek Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis. Mrs May Evans, 7 Tref Eilian, Waunfawr.

£2: Mari Wyn Williams, Llanberis. Mrs M. Lewis, Madryn, Llanrug.

CHWARAEON

Llwyddiant yn Aberdaugleddau

Tîm pêl-droed blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail a fu'n fuddugol yn Aberdaugleddau.

Ein Gohebwyr Ifanc

Unwaith eto y mis yma rwy'n ddiolchgar am eu cyfraniad. Mae Geraint Iwan yn croniclo llwyddiant tîm blwyddyn 9 Ysgol Brynrefail yng Nghwpan Pêl-droed Cymru. Mae ei gyfaill Urien Deiniol yn sôn am gampau y tîm pêl-fasged. Dyma adroddiad Geraint:

Ar ddydd Mercher, Mawrth 8 roedd ein tîm yn wynebu taith o bum awr i Sir Benfro i gyfarfod â thîm Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau. Yn amlwg, roeddem yn poeni am effeithiau blinder o'r teithio, ond cawsom ddechreuad campus. Llwyddodd y tîm i rwydo ddwy waith yn y pum munud agoriadol — y gyntaf gan Steven Lewis, ac yna ergyd wych Celyth Williams. Brwydrodd y tîm, cartref yn ôl, ond roedd amddiffyn Brynrefail yn dâl yr ymosodiadau. Llwyddodd y tîm cartref i dynnu un gôl yn ôl cyn hanner amser. Yn amlwg, roedd brwydr galed yn ein hwynebu yn yr ail hanner. Er y llu o ymosodiadau ar eu gôl, cafwyd perfformiad gwych gan amddiffyn Brynrefail, a gorffenodd y gêm yn 2-1. Taith bleserus, er blinedig, oedd hi yn ôl, ond roeddem yn gwybod fod y daith i'r rownd derfynol yn parhau.

Dyma adroddiad Urien:

Mae'r gêm bêl fasged yn mynd o nerth i nerth yn yr ysgol. Mae llawer o'r bechgyn yn dangos diddordeb ac yn dod yn rheolaidd i'r ymarferiadau. Cynhaliwyd cystadleuaeth i dimau Bl.9 ym Mangor yn ddiweddar. Enillwyd y gêm gyntaf yn erbyn Ysgol Eirias, Bae Colwyn. Yn yr ail gêm yr hen elynion oedd yn ein hwynebu — Ysgol Uwchradd Caergybi. Ceir gemau agos rhyngom bob tro. Yn amlwg, mae dylanwad Phil Holland yn aros yn y ddwy ysgol. Unwaith eto, y Monwysion a enillodd ond rwyn siŵr y daw ein dydd ni rhyw bryd.

Diolch i'r ddau am eu cyfraniad parod.

Mae hen wlad fy nheidiau

Onid trist fu'r hanesion diweddaraf ynglŷn â thîm rygbi Cymru, a phwy sy'n deilwng i wisgo'r crys coch. Yr elfen dristaf i mi yw'r sawl sy'n dweud mai dyfodol y gêm broffesiynol sydd wedi dangos mor 'amaturaidd' oedd trefniadaeth yn yr hen ddyddiau. Chwerthinllyd yw hyn. Yn y 70au roedd safon clybiau Cymru yn uchel, a Chymru gloyw yn dod o glybiau 'Cymreig' eu natur.

Yna'r cyflwyniad o'r rheol y gallai chwaraewr gynrychioli Cymru os oedd wedi byw yma am hyn a hyn o flynydoedd. Gwn am nifer sydd wedi byw yng Nghymru am sawl blwyddyn, ac nad ydynt un owns yn fwy o Gymru na phryd y daethant yma. Yr wyf yn ddigon hen ffasiwn i gredu mai lleoliad y geni yw'r unig faen prawf, neu'n wir dim pellach na man geni y rhieni. Nid mater o ddarnau o bapur yn profi hawl sydd yma ond prawf o onestrwydd ar sawl lefel tu fewn i Undeb Rygbi Cymru. Nid yw'n ddigon da i ddweud fod pawb yn ei wneud, felly golchwch y llechen yn lân ac ail gychwynwch. Bydd y gêm yng Nghymru yn aros yn rym pan fydd y llu o'n hieuenctid ym mhob camp yn gweld cyfle cyfartal i gynrychioli eu gwlad. Y 'feithrinfa' sydd angen cymorth ac mae'r elw yno yn sicr i gyflawni hyn o'r arian sylweddol y mae gemau rhyngwladol yn eu cynhyrchu.

O Lan yr Afon i Lan y Môr

Daeth y newyddion fod Eifion Jones wedi ei drosglwyddo o dîm Lerpwl i dîm Blackpool, sy'n chwarae yn ail adran y Nationwide.

Tra'n Anfield, yn sicr dysgodd Eifion ei grefft, a chafodd chwarae gyda sêr profiadol iawn yn yr ail dîm. Yn anffodus iddo cyfnod y prynu parod yw hi mewn sawl clwb erbyn hyn. Yn amlwg, mae Gerard Houllier yn meithrin tîm profiadol yn Anfield, gyda'r bwriad o herio y cochion yn Old Trafford y tymor nesaf. Mae wedi gwario yn helaeth i gryfhau ei amddiffyn, a oedd yn destun y fath wawd ar ddechrau'r tymor. Yn ôl termau y trosglwyddiad, mae Lerpwl yn mynnu canran o unrhyw dâl y bydd Blackpool yn dderbyn am Eifion os caiff ei drosglwyddo oddi yno. Bydd yn wynebu cyfnod anodd ar Bloomfield Road, i frwydro yn erbyn disgyn o'r ail adran. Mae'r fantais ganddo ei fod dan adain cyn chwaraewr Lerpwl, Steve McMahon, sy'n rheolwr Blackpool erbyn hyn. Dyma un o chwaraewyr mwyaf cystadleuol y cyfnod diweddar. Gobeithio y caiff Eifion le rheolaidd yn y tîm ac aros yn yr adran. Dymunwn yn dda iddo ar ddechrau cyfnod arall yn ei yrfa. Mae'n ddigon ieuanc o hyd i ddenu sylw y prif glybiau unwaith eto.

Cylch Cyfan yn y Sgwâr

Rai blynyddoedd yn ôl ysgrifennais erthygl ar focsio am y tro cyntaf. Croniclo oeddwn ddechrau gyrfa bocsiwr ifanc o Lanrug, sef Kenny Griffiths. Roedd wedi ymuno â Chlwb Bocsio Llangefni, ac yn dechrau gwneud enw iddo'i hun yn yr oedran ieuenctid. Braf cofnodi bod y 'ciw' bocsiwr wedi cymryd camau breision ers y dyddiau cynnar. Yn ddiweddar, daeth yn agos iawn at gipio Pencampwriaeth Pwysau Canol Amatur Cymru. Dyma y tro cyntaf i'r bocsiwr 21 oed, gyrraedd noson y ffeinals. Yn ôl ym mis Chwefror llwyddodd i ennill y rowndiau rhagbrofol, nes dod wyneb yn wyneb â'r bocswyr profiadol. Yn y rownd gyn-derfynol curodd San Pepperall, a oedd wedi cynrychioli Cymru yn Gemau'r Gymanwlad. Roedd y gwahaniaeth o 6 pwynt ar gardiau y 'barnwyr' yn adlewyrchu y camau breision yn natblygiad Kenny, ers iddo gychwyn bocsio 10 mlynedd yn ôl.

Ymlaen i'r rownd derfynol yn Lido Afan. Mark Phillips o Gaerfyrddin oedd y gwrthwynebydd. Er i Kenny frwydro'n ddewr, teimlai fod mantais y deheuwr yn nhermau hyd braich wedi colli'r frwydr iddo. Yn sicr, mae ennill y fedal arian ar eich ymddangosiad cyntaf yn dipyn o bluen yn ei het. Mae Cymru yn gwybod amdano erbyn hyn, a'r nod fydd mynd un cam yn well y tymor nesaf, a dod a phencampwriaeth Cymru yn ôl i Fro'r Eco.

COFIWCH ANFON EICH STRAEON CHWARAEON I'R GOLYGYDD

CWRS GOLFF TYDDYN MAWR, LLANRUG

Ffôn 674919 (Meirion Hughes)

- Cwrs 'Talu am Balu' 9 twll - ar agor 7 diwrnod yr wythnos
- Golff di-lol — di-ffys. Offer golff i gyd ar gael i'w logi
- Croeso i olffwyr o bob oed
- Cyfle rhagorol i ddechrau dysgu'r gêm

TELERAU 2000

- Un rownd 9 twll £3 • Gelfi i'w hurio £1
- Telerau perthnasol i'r ifanc
- Rhaid i blant dan 14 oed fod yng ngofal oedolyn

ANRHEG DELFRYDOL!

TOCYN TYMOR BLYNYDDOL NAWR AR GAEL

£100 I BARHAU AM FLWYDDYN GRON

Ffurflen gais ynghyd â manylion pellach i'w cael oddi wrth Meirion